# Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024

Cyngor Caerdydd



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English

UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD

# Cynnwys

**Rhagair: gan yr Arweinydd Huw Thomas a'r Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad ....... 3**

Cyflwyniad ....... 6

Gwerthfawrogi amrywiaeth Caerdydd ....... 11

Ein hymrwymiadau ....... 10

Gwneud iddo ddigwydd ....... 12

**Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024 ....... 14**

Cyflwyniad ....... 14

Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ....... 15

Amserlen ....... 16

Amcan 1: Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd ....... 17

Amcan 2: Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a thu hwnt ....... 35

Amcan 3: Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw, yn ymweld neu'n gweithio yn y ddinas ....... 47

Amcan 4: Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol ....... 56

**Atodiad A**: Adroddiad Ymgynghori ar ein Hamcanion

**Atodiad B:** Datganiad Polisi Cyfle Cyfartal

**Atodiad C:** Terminoleg

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn iaith arall, Braille, sain, print bras, hawdd ei darllen, fideo IAP neu destun plaen, cysylltwch â'r timcydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

# Rhagair

## Gan Arweinydd y Cyngor, Huw Thomas a'r Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

Yn Uchelgais Prifddinas, rydym yn nodi ein rhaglen weithredu i greu Caerdydd decach a mwy cynhwysol, lle caiff pob dinesydd, waeth beth fo'i gredo, hil, neu gyfoeth a etifeddwyd, y cyfle i gyflawni ei botensial, a chwarae rhan lawn a gweithgar ym mywyd ein dinas.

Yn sgil pandemig y Coronafeirws, sydd wedi taro'r cymunedau tlotaf, mwyaf difreintiedig a datgysylltiedig galetaf, nid ydym yn tanbrisio maint yr her sydd o'n blaenau. Felly, mae cyhoeddi'r Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant hon yn amserol, ac mae'r ymagwedd y mae'n ei amlinellu yn hanfodol ar gyfer adferiad teg a chyfartal i Gaerdydd o'r argyfyngau iechyd ac economaidd sy'n mynd rhagddynt.

Mae pandemig y Coronafeirws wedi amlygu nifer o faterion sy'n ymwneud â gwrthdaro economaidd a chymdeithasol dwfn, yn eu plith anghydraddoldeb cyflog ac ansicrwydd gwaith i lawer o'r cyflogeion allweddol sydd wedi cefnogi ein cymuned gyfan drwy'r argyfwng hwn.

Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu bod y Coronafeirws wedi dwysáu anghydraddoldeb ar raddfa fyd-eang, a bod anghydraddoldebau o ran tai, cyflogaeth ac iechyd wedi gwneud y feirws yn fwy angheuol ac wedi ei helpu i ledaenu. Mae'r bobl sy'n wynebu'r amddifadedd mwyaf wedi bod mewn mwy o berygl o ddod i gysylltiad â Covid-19 ac mewn mwy o berygl o wynebu canlyniadau difrifol os ydynt yn dal y feirws. Heb weithredu bwriadol ac ystyriol, mae'n amlwg y bydd hyn yn ehangu'r anghydraddoldebau a fodola eisoes yn ein cymdeithas.

Mae effaith anghymesur yr argyfwng ar gymunedau PDdLlE yng Nghymru wedi'i dogfennu'n dda gan Grŵp Cynghori PDdLlE Covid-19 Prif Weinidog Cymru. Ym mis Mai 2020, fe wnaeth llofruddiaeth drasig George Floyd ym Minnesota ddeffro ymdeimlad o anghyfiawnder diymwad ac eang, gan sbarduno protestiadau ledled yr Unol Daleithiau a phob cwr o'r byd, gan gynnwys yma yng Nghaerdydd. Mae'r gydnabyddiaeth gyffredinol ledled ein cymunedau bod pobl o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi wynebu gwahaniaethu ac anfantais yn ein cymdeithas, ac yn parhau i'w hwynebu, yn gofyn am weithredu brys gan bob haen o lywodraeth. Yn ystod haf 2020, rydym wedi sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar sicrhau cydraddoldeb hiliol yn ein dinas.

Bydd y Tasglu hwn yn hanfodol er mwyn llywio adferiad Caerdydd yn y misoedd i ddod a bydd yn ymgynnull yn ystod gweddill y weinyddiaeth hon. Bydd y Tasglu'n gweithredu ar unwaith ac yn y tymor hir er mwyn rhoi mwy o gyfle, cynrychiolaeth ac ansawdd bywyd yng Nghaerdydd i'n preswylwyr sy'n Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae pandemig y Coronafeirws hefyd yn bygwth y cynnydd yr ydym wedi'i wneud o ran cau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gyda menywod yn cael eu gorgynrychioli yn y sectorau sydd wedi eu tarro galetaf, fel lletygarwch a hamdden. Mae mesurau cyfnod cloi y Coronafeirws a mesurau cadw pellter cymdeithasol tymor hwy hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar ofalwyr, gydag effaith anghymesur rhoi gofal di-dâl ar fenywod a merched hefyd yn un o'r agweddau allweddol ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Wrth i ni gefnogi adferiad economaidd Caerdydd, rhaid i ni ystyried sut y gallwn gyflymu'r camau gweithredu i gau'r bwlch ariannol rhwng y rhywiau, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar eu gweledigaeth uchelgeisiol i Gymru fod yn arweinydd rhyngwladol dros gydraddoldeb rhywiol.

O'r tebygolrwydd o ddatblygu math mwy difrifol o Covid-19 i'r peryglon sydd ynghlwm wrth unigedd a phroblemau iechyd meddwl, mae'r argyfwng wedi effeithio ar bobl hŷn, y rhai sydd ag anableddau a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol mewn ffyrdd penodol sy'n haeddu gofal a sylw o ddifri yn ein gwaith o gynllunio adferiad ar gyfer y ddinas. Parhewn i weithio'n agos gyda'n darparwyr gofal cymdeithasol i nodi pa gymorth y gellir ei roi i ddefnyddwyr gwasanaethau ac i ailagor mannau cyhoeddus. Caiff cyfleusterau ystyriaeth feddylgar ac ymgynghori er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd ddiogel a hygyrch.

Mae pandemig y Coronafeirws wedi amharu ar fywyd pob plentyn yn y wlad. Mae ein dyhead i ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant UNICEF yn bwysicach nawr nag erioed. Bydd pobl ifanc yn debygol o ysgwyddo baich yr argyfwng economaidd am y blynyddoedd i ddod. Bydd cynnwys plant a phobl ifanc yn ystyrlon yn y deialog am ddyfodol ein dinas yn ystod y cyfnod heriol hwn yn ein galluogi i ddatblygu cynlluniau ymatebol sy'n diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ogystal â'n hymrwymiad i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae ein dyheadau ar gyfer dinas fwy cyfartal yn y strategaeth hon yn amlwg yn mynd lawer ymhellach. Mae ein gweledigaeth yn cynnwys pobl sy'n derbyn gofal a phobl â chyfrifoldebau gofalu, ffoaduriaid ac ymfudwyr, a sicrhau drwyddi draw bod sylw rhagweithiol yn cael ei roi i'r anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Rhaid i ddyfodol Caerdydd fod yn deg, yn gynhwysol ac yn ddiogel i bawb. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn gwireddu'r uchelgais hwn. Mae'n nodi'r safonau uchel a ddisgwyliwn o'n hochr ni ac mae'n dangos yr ymdrechion y byddwn yn eu gwneud i adeiladu diwylliant cynhwysol o fewn ein gweithlu a'n sefydliad.

Mae'n esbonio sut y byddwn yn llunio gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac allgáu ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol gymunedau. Rhaid i ni ymdrin â'r nodau hyn gydag egni a ffocws newydd yng nghyd-destun ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd a'r heriau economaidd a chymdeithasol sylweddol a grëwyd gan y pandemig. Mae llawer o ansicrwydd, ac mae'n debygol y bydd llawer mwy o heriau annisgwyl yn y misoedd i ddod, ond rydym yn benderfynol bod yn rhaid i Gaerdydd ailadeiladu ei hun fel lle tecach a mwy cyfartal.

Drwy gydol y strategaeth hon, mae ein dull gweithredu yn cysylltu â chamau ein Cynllun Corfforaethol, sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein Huchelgais Prifddinas. Yng nghyd-destun adferiad, mae pob gwasanaeth ar draws y cyngor, o wasanaethau i mewn i waith, tai, addysg, trafnidiaeth a'r holl wasanaethau statudol ac anstatudol eraill a ddarparwn, wedi ailgychwyn eu gwasanaethau gyda chydraddoldeb wrth wraidd popeth a wnânt.

O 2020 ymlaen, bydd pob gwasanaeth yn adrodd ar eu gweithgareddau i gefnogi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, drwy ein fframwaith perfformiad corfforaethol a'n systemau adrodd. Bydd y newid hwn yn gwella cysylltedd, yn cefnogi diwylliant gweladwy a rhagweithiol o ran cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb ac yn hwyluso herio adeiladol i ddigwydd ar draws y cyngor, lle bo angen, i gyflawni ein gweledigaeth.

Y strategaeth hon yw'r cam nesaf ar ein taith i greu dinas gynhwysol sy'n gweithio i'n holl breswylwyr. Rydym yn ymfalchïo'n briodol yn enw da ein dinas am oddefgarwch, parch ac undod ond rhaid i ni beidio â chymryd hyn yn ganiataol – rhaid i ni barhau i fod yn wyliadwrus o fygythiadau a heriau newydd i'n gwead cymdeithasol. Ein gweledigaeth yw creu dinas lle gall pawb gyrraedd eu potensial yn llawn, ac rydym yn hyderus y gallwn wneud cynnydd gwirioneddol yn y blynyddoedd i ddod. Gyda'n gilydd, gallwn greu dinas fwy cyfartal – dinas sy'n gweithio i holl breswylwyr Caerdydd.



Y Cynghorydd Huw Thomas



Y Cyng. Chris Weaver

# Cyflwyniad

Mae'r cyflwyniad hwn yn esbonio'r cyd-destun statudol a pholisi ar gyfer gwaith cydraddoldeb y cyngor ac yn egluro ein hymagwedd strategol

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Fel corff cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae'r Strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol o dan y ddyletswydd hon, a ddiffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb fel a ganlyn:

"Rhaid i awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i

(a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan, neu o dan y Ddeddf hon;

(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

(c) meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno."

Mae'r rhwymedigaethau hyn yn berthnasol i holl swyddogaethau'r cyngor ac mae'r Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant hon yn esbonio sut y byddwn yn cyflawni'r dyletswyddau hyn yn ein rôl fel darparwr gwasanaeth, fel cyflogwr, fel asiantaeth flaenllaw yn y ddinas ac yn ein gwaith gyda chymunedau.

Ein dull o weithredu yw ymgorffori ein hymrwymiad i gydraddoldeb ym mhob rhan o'n gwaith, o brosesau a phobl i raglenni cyhoeddus.

Drwyddo draw, mae ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn defnyddio ac yn ategu Datganiad Polisi Cyfle Cyfartal Cyngor Caerdydd, sydd wedi ei gyhoeddi fel **Atodiad B** i'r ddogfen hon. Mae ein Datganiad Polisi Cyfle Cyfartal yn nodi ein hymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth o ran cyflogaeth a darpariaeth gwasanaeth.

## Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010), rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi'r amcanion y mae'r sefydliad am eu cyflawni dros gyfnod o bedair blynedd. Gelwir y blaenoriaethau hyn yn Amcanion Cydraddoldeb Strategol.

Mae'r Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant hon yn amlinellu Amcanion Cydraddoldeb Strategol Cyngor Caerdydd ar gyfer cynyddu a hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y ddinas. Gan adlewyrchu'r amserlenni statudol hyn, mae'r strategaeth hon yn para am bedair blynedd, gan ddechrau ym mis Hydref 2020 a gorffen ym mis Mawrth 2024.[1]

Drwy gydol y strategaeth hon rydym yn egluro'r cysylltiadau rhwng ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'n strategaeth gyffredinol sef Uchelgais Prifddinas, a'n Cynllun Corfforaethol. Rydym yn nodi camau gweithredu clir a fydd yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion ac yn nodi'r grwpiau rydym yn rhagweld y byddant yn elwa o'u cyflawni.

Felly, dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor: Cyflawni Uchelgais Prifddinas.

## Ar gyfer pwy mae'r Polisi a'r Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant?

Mae creu dinas lwyddiannus a chynhwysol hefyd yn golygu cydnabod bod llawer o achosion o anghydraddoldeb ac allgáu, a bod y rhain yn aml yn gydgysylltiedig ac yn atgyfnerthu ei gilydd. Gellir eithrio pobl am fod ganddynt incwm isel, am eu bod wedi'u hynysu'n gymdeithasol, am eu bod yn byw mewn tai gwael neu am fod eu hiechyd yn wael. Mae ffoaduriaid ac ymfudwyr, pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu neu sydd wedi derbyn gofal hefyd yn debygol o wynebu rhwystrau ychwanegol o ran cael gafael ar wasanaethau a chyrraedd eu llawn botensial.

Yn ogystal â chyflawni ein Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, mae ein dull gweithredu yn cwmpasu dyhead ehangach i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r ymagwedd hwn yn galluogi'r Cyngor i baratoi ar gyfer cychwyn Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010, y disgwylir iddo gychwyn ym mis Mawrth 2021 yng Nghymru.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r camau yr ydym yn eu rhoi ar waith i gyflwyno'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ein hadroddiadau corfforaethol ar weithgareddau yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol. Mae hyn yn golygu ein bod yn nodi ac yn cefnogi arfer sy'n lleihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ar draws y cyngor, rhywbeth yr ydym yn cydnabod sy'n arbennig o hanfodol yng nghyd-destun cynllunio'r adferiad o'r argyfwng iechyd cyhoeddus sy'n mynd rhagddo.

Mae cyfoeth o dystiolaeth gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ynghyd â gwaith ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid, yn cefnogi ein barn y byddai dinas fwy cyfartal yn sicrhau manteision i'n holl ddinasyddion, ein cymunedau, ein cydweithwyr a'n partneriaid.

1. Nodwch fod y dyddiad cau statudol ar gyfer cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb Strategol cyrff y sector cyhoeddus wedi'i ohirio tan fis Hydref 2020 oherwydd pandemig y Coronafeirws.

**Pwy gaiff eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?**

Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd ei nodwedd warchodedig/ nodweddion gwarchodedig. Dyma'r term a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i nodi'r mathau o bethau sy'n effeithio ar sut caiff pobl eu trin ac a allai olygu bod pobl yn profi gwahaniaethu.

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil
- Crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred)
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Priodas a phartneriaeth sifil

## Y Coronafeirws ac Anghydraddoldeb

Adolygwyd y cynllun hwn gennym yng ngoleuni pandemig y Coronafeirws, gan gydnabod bod canlyniadau'r argyfwng hwn yn debygol o waethygu anghydraddoldebau presennol yn ein cymdeithas heb weithredu bwriadol ar ein rhan. Mae gwasanaethau cyhoeddus bellach yn gweithredu mewn amgylchedd gwahanol iawn o gymharu â dechrau 2020 ac mae cefnogi'r rhai yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan argyfwng Covid-19 wedi bod o'r pwys pennaf wrth gynllunio'r adferiad ac wrth ailgychwyn ein gwasanaethau. Mae ein dull adfer ar draws y Cyngor yn adlewyrchu ysbryd y strategaeth hon a'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol.

Gan gydnabod bod ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd a chanlyniadau'r Pandemig Coronafeirws yn golygu ein bod yn gweithio mewn hinsawdd sy'n datblygu'n gyflym, a bod disgwyl i'r ffactorau hyn ddylanwadu'n fawr ar ein tirwedd yn y dyfodol, caiff ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant ei hadolygu a'i diweddaru ar ganol ei chyfnod cyflawni, yn 2022.

# Gwerthfawrogi Amrywiaeth Caerdydd

Mae Caerdydd yn un o'r cymunedau hynaf o ran ethnigrwydd amrywiol ym Mhrydain. O ddechrau'r 1800au hyd at adeg yr Ail Ryfel Byd, daeth ymfudwyr o fwy na 50 o wledydd gwahanol i'r ddinas i weithio yn y diwydiant allforio glo a galwedigaethau sy'n gysylltiedig â masnach ryngwladol. Yn Butetown, mae gennym gofnodion sy'n awgrymu bod 50-60 o genhedloedd yn byw ochr yn ochr mewn dim ond ychydig o strydoedd, mor bell yn ôl â'r 1840au.

Drwy gydol ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant, rydym yn nodi'r data perthnasol ynghylch canlyniadau a phrofiadau grwpiau nodweddion gwarchodedig, aelwydydd incwm isel a data arall sy'n berthnasol i anghydraddoldeb er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio dull a arweinir gan dystiolaeth o ymdrin â'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol.

Mae **Atodiad A** yn darparu ein sail dystiolaeth ar gyfer y strategaeth hon yn fanylach ac yn nodi ffynonellau pellach o ddata cydraddoldeb

### Ffeithiau a ffigyrau allweddol ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghaerdydd:

Mae 1 o bob 5 o breswylwyr Caerdydd yn gyffredinol yn dod o Gefndir Pobl Dduon neu Leiafrifol Ethnig, a thua 1 o bob 3 phlentyn o oed cynradd.

Ganed tua 17 % o breswylwyr Caerdydd y tu allan i'r DU.
Siaredir dros 100 o ieithoedd a 160 o dafodieithoedd yng Nghaerdydd.

Mae tua 18 % o breswylwyr Caerdydd yn profi problem iechyd neu anabledd hirdymor sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl ifanc (dan 18 oed) yng Nghaerdydd yn cynyddu 25 % dros yr ugain mlynedd nesaf, o'i gymharu â chynnydd o 0.8 % trwy Gymru gyfan.
Bydd twf o 75 % hefyd yn nifer y bobl dros 75 oed.

Mae dros 60,000 o bobl yng Nghaerdydd yn byw ymysg y 10 % o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Petai 'Bwa Deheuol' Caerdydd, o Drelái yn y Gorllewin i Trowbridge yn y Dwyrain, yn cael ei ystyried yn un awdurdod lleol, hwn fyddai'r tlotaf yng Nghymru o gryn dipyn.

# Ein Hymrwymiad

## Ym mhopeth a wnawn

- Rydym yn ymrwymo i gyflawni llythyren ac ysbryd ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys Rheoliadau Cymru, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol arall sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'n contractwyr a'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu gadw at bob agwedd ar y ddeddfwriaeth cydraddoldeb sy'n berthnasol iddynt ac i gynorthwyo'r cyngor i gynnal ei rwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

- Rydym yn ymrwymo i fod yn sefydliad sy'n dysgu, sy'n gwella ei arfer yn rhagweithiol, ac sydd bob amser yn barod i ymateb pan fydd problemau yn codi. Byddwn yn ceisio deall a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol dros anghydraddoldeb ac allgáu yng Nghaerdydd ac yn canolbwyntio ein hymdrechion ar fynd i'r afael â hwy. Os gwnawn gamgymeriadau, byddwn yn unioni hynny gan sicrhau ein bod yn dysgu o'r profiad a defnyddio'r wers i lywio sut rydym yn gweithio.

- Byddwn yn mesur ac yn rhannu ein cynnydd a'n llwyddiant, drwy ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a thrwy sianeli eraill, megis ein rhwydweithiau rhanddeiliaid a'n sianeli cyfathrebu.

- Byddwn yn darparu ac yn comisiynu gwasanaethau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.

## Fel dylanwadwr a chynullydd

- Pan fo modd gwneud hynny, byddwn yn hyrwyddo arferion cydraddoldeb a chynhwysiant da ymhlith ein partneriaid yn y ddinas ac yn ein rhanbarth, ac yn ceisio dysgu o'u harfer gorau, ac arferion gorau dinasoedd eraill yn y DU a thu hwnt.

- Byddwn yn ymgysylltu â'n cymunedau a'n partneriaid yn y sector wirfoddol, yn gwrando ar eu barn ac yn eu hystyried pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gwneud ein gwybodaeth, ein gwasanaethau a'n cynnyrch yn fwy hygyrch a chynhwysol.

- Byddwn yn chwarae ein rhan i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gefndiroedd ac yn annog ein partneriaid i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi cydlyniant a chynhwysiant cymunedol.

## Fel cyflogwr

- Byddwn yn cydnabod, yn cefnogi ac yn grymuso'r rhai sy'n gyfrifol am hyrwyddo cydraddoldeb yn ein sefydliad, yn enwedig ein rhwydweithiau staff.
- Sicrhau bod cyfle cyfartal yn rhan annatod o'r modd rydym yn recriwtio ac yn trin ein gweithlu.
- Mynd i'r afael â phob honiad o wahaniaethu, aflonyddu, bwlio ac erledigaeth yn effeithiol ac amserol.
- Bod â gweithlu sy'n amrywiol yn yr ystyr ehangaf posibl a lle mae amrywiaeth o ran cefndir a meddwl yn cael ei werthfawrogi.
- Defnyddio polisïau ac arferion sy'n galluogi cydweithwyr i gyflawni eu potensial a gwneud cynnydd o fewn ein sefydliad.



# Gwneud iddo ddigwydd

Yn y dyfodol, rydym am fod yn fodel o arfer da i gynghorau eraill yng Nghymru a dinasoedd y DU o ran ein dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chynnig cyfle cynhwysol i'n preswylwyr.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn cyhoeddi'r Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant hon gydag amcanion a chamau gweithredu clir, sy'n cyd-fynd â'n strategaeth gyffredinol, Uchelgais Prifddinas a'n Cynllun Corfforaethol.

Byddwn yn dogfennu ein cynnydd yn erbyn y strategaeth hon drwy adroddiad blynyddol, a fydd ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan. Bydd pob cyfarwyddiaeth sy'n gyfrifol am gyflawni yn adrodd ddwywaith y flwyddyn ar eu gweithgareddau i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol, drwy adroddiadau Perfformiad Corfforaethol y Cyngor a thrwy adrodd yn erbyn Cynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaethau.

Mae gan bawb sy'n gweithio i Gyngor Caerdydd ran i'w chwarae o ran cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol, ac ymgynghorwyd â gwasanaethau ar draws y cyngor yn ystod eu datblygiad i nodi cyfleoedd i wella a gwella ein harfer.

Rydym yn cydnabod bod gan gynghorwyr ac uwch swyddogion gyfrifoldeb penodol i gynnig arweinyddiaeth weithredol a gweladwy i gefnogi'r gwaith o weithredu ein gweledigaeth strategol ar gyfer cydraddoldeb yn y ddinas.

## Integreiddio cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn

Yn ogystal â'r Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant hon, mae gennym nifer o bolisïau gweithredol manylach a rhaglenni gwaith sy'n cefnogi, yn ategu ac yn cyd-fynd â'r strategaeth gyffredinol hon. Maent yn nodi nodau a mesurau penodol i fynd i'r afael â materion gweithredol penodol a dylid eu darllen ar y cyd â'r strategaeth hon. Bydd y rhai sy'n ceisio rhagor o wybodaeth a chyd-destun ar feysydd penodol o'n Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y strategaethau a'r polisïau eraill a nodwyd drwy gydol y ddogfen hon.

Wrth i bolisïau newydd gael eu datblygu neu eu hadolygu yn ystod oes y strategaeth hon, caiff gwasanaethau eu hannog i sicrhau eu bod yn cydweddu â'r Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant ac yn ceisio cyngor gan ein Tîm Cydraddoldeb corfforaethol i gyflawni hyn. Yr offeryn allweddol i gyflawni hyn fydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

### Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb?

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ffordd systematig o ystyried cyfle cyfartal wrth wneud penderfyniad. Mae Cyngor Caerdydd yn cynnal AEGau ar newidiadau sylweddol i bolisi neu wasanaethau a phenderfyniadau a allai gael effaith anghymesur ar unigolion neu grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, er mwyn sicrhau ystyriaeth o effaith economaidd-gymdeithasol ehangach y newid, a chydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

### Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn galluogi'r Cyngor i wneud y canlynol:

- Dangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i ddarpariaethau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Nodi effeithiau andwyol posibl penderfyniadau ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchodedig a chynllunio camau lliniaru yn unol â hynny.
- Nodi cyfleoedd ychwanegol i hyrwyddo cydraddoldeb o fewn polisïau, strategaethau a gwasanaethau.

Rydym yn credu ei bod yn arfer da wrth ddatblygu polisi neu strategaeth neu fenter newydd i ragweld yr effeithiau tebygol y gallent eu cael a rhoi camau ar waith i atal neu leihau unrhyw effeithiau niweidiol tebygol, yn enwedig ar bersonau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae hyn yn sicrhau nad yw grwpiau difreintiedig yn wynebu mwy o anfantais oherwydd y polisïau a'r strategaethau a fabwysiadwn. Mae hefyd yn sicrhau bod cynghorwyr yn cael gwybod am effeithiau posibl y cynigion cyn iddynt wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Wrth ddatblygu polisi neu fenter, caiff swyddogion y cyngor eu cynghori i geisio barn pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig i ganfod sut y mae'n debygol o effeithio arnynt, ac i ddefnyddio'r safbwyntiau hynny i lywio eu hasesiadau o'r effaith a'u hargymhellion i gynghorwyr.

Rydym yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy weithio'n drefnus drwy nifer o gwestiynau i nodi grwpiau a allai gael eu heffeithio, nodi a dadansoddi data perthnasol ynglŷn â'r grŵp yr effeithir arno, a chynhyrchu dadansoddiad o'r effaith yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Mae adran olaf yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol nodi unrhyw effeithiau andwyol a chamau lliniaru.

# Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024

# Cyflwyniad

Nodir gweledigaeth y Cyngor o ddinas decach a mwy cynhwysol lle gall pawb rannu yn ei llwyddiant yn ein Strategaeth Uchelgais Prifddinas. Er ei bod yn lle gwych i fyw ynddo, nid yw Caerdydd yn ddiogel rhag yr anghydraddoldebau a'r gwahaniaethu hirhoedlog sy'n effeithio ar bob dinas fawr.

Mae'r strategaeth hon yn darparu fframwaith clir ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ac ymgorffori gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ym mhopeth a wnawn. Y diben allweddol i ni dros osod yr amcanion cydraddoldeb hyn yw ysgogi gwell canlyniadau i bobl sy'n profi anfantais sy'n gysylltiedig â'u nodweddion gwarchodedig ac o ganlyniad i anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

Nod yr amcanion hyn yw dileu rhwystrau, hyrwyddo cyfle cyfartal, hyrwyddo cysylltiadau da a gwella ein perfformiad o ran cyflawni ein dyletswyddau. Rydym yn cydnabod bod cyflawni'r amcanion hyn yn nod hirdymor a fydd yn gofyn am weithredu ar y cyd, yn rhagweithiol ac yn barhaus er mwyn dangos tystiolaeth o newid.

Mae'r her o gau'r bwlch anghydraddoldeb yng nghanol ansicrwydd ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ac effaith y Coronafeirws yn rhoi hwb pellach i gyflawni ein hamcanion. Dros y flwyddyn gyntaf, bwriadwn osod y sylfeini i gyflawni'r strategaeth hon yn effeithiol. Yn ystod oes y strategaeth hon byddwn yn cyflawni safonau uchel ym mhob maes, gan sicrhau ein bod, erbyn 2024, yn modelu arfer da ar draws y sefydliad cyfan a bod pobl a sefydliadau, yng Nghaerdydd a thu hwnt, yn disgwyl i'r Cyngor bod yn fodel o arfer da wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chynhwysiant.

Byddwn yn ailedrych yn rheolaidd ar y strategaeth hon er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol ac, yn benodol, ei bod yn adlewyrchu dealltwriaeth gyfoes o'r ffactorau sy'n sbarduno anghydraddoldeb yng Nghaerdydd.

## Yr ymgynghoriad ar ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol trawsbynciol yn cael eu llywio gan dystiolaeth ynghylch anghydraddoldeb yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein hymgynghoriad â phreswylwyr, staff a'n partneriaid ynglŷn â'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig a'r camau gweithredu sydd eu hangen i'w cyflawni. Mae **Atodiad A** yn crynhoi'r broses ymgynghori cyhoeddus a chasglu tystiolaeth yn fanwl, a sut y dylanwadodd ein hymgynghoriad ar y strategaeth hon.

# Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

| **Amcan 1 - Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd.** |
| --- |
| Crynodeb - Byddwn yn darparu gwasanaethau a phartneriaethau cynhwysol sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac allgáu ac yn galluogi holl breswylwyr Caerdydd i wireddu eu potensial a byw'n ddiogel. |

| **Amcan 2 - Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a'r tu hwnt.** |
| --- |
| Crynodeb - Byddwn yn dangos arweiniad ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru, gan fynnu safon uchel gennym ein hunain fel y bydd eraill yn edrych atom fel ffynhonnell o arfer da. |

| **Amcan 3 - Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw, yn ymweld neu'n gweithio yn y ddinas.** |
| --- |
| Crynodeb - Byddwn yn cymhwyso egwyddorion dylunio cynhwysol i greu seilwaith dinasoedd sy'n darparu amgylchedd cynhwysol a di-rwystr i'n preswylwyr a'n rhanbarth ehangach. Bydd hyn yn galluogi pawb i gymryd rhan yn gyfartal, yn hyderus ac yn annibynnol ym mywyd y ddinas. |

| **Amcan 4 - Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol.** |
| --- |
| Crynodeb - Byddwn yn cymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn adlewyrchu amrywiaeth y ddinas a wasanaethwn yn well, ac yn weithle lle mae cydweithwyr yn teimlo'n hyderus o ran bod yn y gwaith. |

Gyda'i gilydd, mae'r amcanion hyn yn ymwneud â phob agwedd ar rolau'r Cyngor fel cyflogwr, fel darparwr gwasanaethau, fel hwylusydd cymunedau gwydn ac fel asiantaeth flaenllaw yn y ddinas.

Yn nhudalennau canlynol y strategaeth hon, rydym yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud, neu eisoes yn ei wneud, er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, pam yr ydym wedi'u dewis, sut y byddwn yn mesur cynnydd a phwy fydd, yn ein barn ni, yn elwa'n benodol o'u cyflawni.

# Amserlen

**2020**

- Gosod y sylfaeni i gyflawni'r strategaeth hon yn effeithiol.
- Cyflwyno adrodd ar berfformiad corfforaethol ddwywaith y flwyddyn ar gyfer ein hamcanion ar draws yr holl wasanaethau sy'n gyfrifol am gyflawni, ar gyfer y cynllun corfforaethol a chynlluniau gweithredu cyfarwyddiaethau a nodwyd yn y ddogfen hon.
- Nodi a chasglu mesurau gwaelodlin i lywio a gosod targedau mwy tymor hir.
- Cynhyrchu Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb o ansawdd uchel drwy gydol cynllunio adfer Coronafeirws wrth i wasanaethau'r Cyngor addasu i ofynion cadw pellter cymdeithasol ac ail-ddechrau cyflawni.

**2021**

- Cefnogi cyfarwyddiaethau'r Cyngor a'n rhanddeiliaid i ddeall y data yn ymwneud â Coronafeirws a gadael yr UE, i ddeall yr effaith ar breswylwyr â nodweddion gwarchodedig a'r rheiny sy'n profi anfantais cymdeithasol-economaidd.

**2022**

- Cwblhau adolygiad ganol tymor o'r Strategaeth Cydraddoldeb a Chyhwysiant a'n hamcanion.
- Nodi bylchau a phroblemau, yn enwedig y rhai sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil y pandemig Coronafeirws, ac adolygu ein targedau.

**2023**

- Sicrhau fod safonau uchel yn cael eu cyflawni ym mhob maes.
- Parhau i adolygu ein harfer a chynnig her adeiladol i wasanaethau er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni pob cam posib i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ar draws y Cyngor.
- Cwblhau ymgynghoriad ar ein Polisi a Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant nesaf a'i amcanion.

**2024**

- Cwblhau hunan-asesiad gan ddefnyddio fframwaith Cydraddoldeb y Gymdeithas Llywodraeth Leol i fesur ein cynnydd.
- Datblygu a chyhoeddi ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant newydd a'n Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2024-2028, gan adeiladu ar y llwyddiannau a'r dysgu o'r Strategaeth hon.


**Adroddwn yn flynyddol ar ein cynnydd a bydd ein hadroddiadau ar gael ar ein gwefan.**

# Amcan 1: Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd

## Cyflwyniad

Mae Caerdydd yn gartref i rai o'r wardiau mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron i draean o breswylwyr Caerdydd yn profi amddifadedd materol, gyda chanran uchel o blant yn byw ar aelwydydd heb waith ac ar incwm isel.[2] Dim ond dau awdurdod lleol arall yng Nghymru, Merthyr Tudful a Chasnewydd, sydd â chanran uwch o'u poblogaeth yn byw yn y cymunedau tlotaf yng Nghymru.[3]

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 Caerdydd – Safle Cyffredinol**




---

2. Gweler: Asesiad Llesiant Lleol Caerdydd, [Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, cyfiawn a chynhwysol: Tlodi]
3. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, [Amddifadedd Cyffredinol, Canran yr ACEHIau yn y 10 % o Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig yng Nghymru (1-191)]

Er gwaethaf twf economaidd Caerdydd dros y 30 mlynedd ddiwethaf, mae'r patrymau o dlodi ac anghydraddoldeb a ymddangosodd genhedlaeth yn ôl yn parhau o hyd. Mae gwahaniaethau dramatig mewn amddifadedd rhwng Bwa Deheuol Caerdydd[4] a gweddill y ddinas. Yn ogystal, mae lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sydd ag anabledd, sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, yn fwy agored i ddiweithdra hirdymor.[5]

Mae'r mwyafrif o'r rheiny sy'n gadael ysgol, nad ydynt yn pontio'n llwyddiannus i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, yn byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas.[6] Er bod perfformiad ysgolion ar draws y ddinas wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae gormod o ysgolion yn tanberfformio, yn enwedig yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas. Yn yr un modd, mae'r bwlch rhwng y disgyblion hynny sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt, yn parhau'n sylweddol, sy'n dangos bod gormod o blant sy'n byw mewn tlodi ariannol yn methu â chyflawni eu potensial yn yr ysgol.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth o Gaerdydd deg, gyfiawn a chynhwysol a nodir yn ein Cynllun Llesiant 2018-2023,[7] rhaid i Gaerdydd fod yn ddinas sy'n lle gwych i fyw a gweithio ynddi i'w holl ddinasyddion, waeth beth fo'u cefndir neu'r gymuned y maent yn byw ynddi.

Ein gweithgareddau i geisio gwireddu'r amcan hwn fydd sut y byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio a'u darparu er mwyn sicrhau bod dinasyddion a chymunedau mwyaf agored i niwed y ddinas yn cael eu cefnogi, a bod y bylchau sylweddol a chynyddol mewn tai, ffyniant a lefelau sgiliau rhwng cymunedau yn y ddinas yn cael eu lleihau.

4. Mae'r Bwa Deheuol yn cynnwys y wardiau canlynol: Adamsdown, Butetown, Caerau, Treganna, Trelái, Grangetown, Llanrhymni, Glanyrafon, Tredelerch, Sblot, Trowbridge. Nid yw rhai o'r ACLlau yn cyd-fynd yn union â'r ffiniau presennol ond maent wedi'u priodoli i'r ardal ar sail gweddu orau.
5. Gweler: Asesiad Llesiant Lleol Caerdydd Sail Dystiolaeth, Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, cyfiawn a chynhwysol,
6. Gweler: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), parth Addysg
7. Gweler: Cynllun Llesiant Caerdydd 2018-2023

# Tai

## Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy

Fel dinasoedd eraill y DU, tai yw un o elfennau allweddol anghydraddoldeb yng Nghaerdydd. Mae angen gweithredu'n feiddgar er mwyn i'r ddinas osgoi dod yn lle gyda nifer 'y rhai â thai' yn lleihau a miloedd yn fwy yn dod yn 'weddill sy'n rhentu'. Mae tai yng Nghaerdydd yn gymharol anfforddiadwy o'u cymharu â dinasoedd craidd eraill,[8] gyda thŷ cyffredin yn costio bron saith gwaith y cyflog cyfartalog. Dim ond ym Mryste a Manceinion y ceir tai llai fforddiadwy.[9]

Mae rhenti preifat cyfartalog wedi codi'n gyflymach na'r cyfartaledd enillion yng Nghaerdydd dros y 6 blynedd diwethaf, gan wneud tai yn llai fforddiadwy i denantiaid. Rhwng 2014 a 2019, cynyddodd rhenti preifat cyfartalog 27 %,[10] tra cynyddodd enillion unigol cyfartalog ond 9 % ar gyfer cyflogeion llawn amser ac 17 % ar gyfer cyflogeion rhan-amser.[11] Mae preswylwyr ifanc, PDdLIE a phobl ifanc nad oeddynt wedi cael eu geni yn y DU yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector rhentu preifat sy'n ehangu'n gyflym[12] ac mae nifer yr aelwydydd â phlant, sy'n rhentu'n breifat wedi tyfu, yn enwedig o ran mamau sengl.[13]

Mae prinder cynyddol y stoc tai wedi arwain at brisiau a rhenti'n codi'n gyflym, gyda 25.5 % o breswylwyr Caerdydd yn byw mewn tlodi unwaith y bydd costau tai'n cael eu hystyried.[14] Mae diwygiadau lles wedi gwneud y sector rhentu preifat yn fwy anfforddiadwy i aelwydydd incwm isel yng Nghaerdydd. Mae'r rhai sy'n rhentu'n breifat neu'n ceisio prynu eu cartref cyntaf yn teimlo'r pwysau hwn yn fwy difrifol.[15]

Gall prisiau tai uchel olygu safonau byw gwaeth gan fod cyfran uwch o incwm yn cael ei wario ar gostau tai. Gall hefyd gael effaith negyddol ar les meddyliol a dewisiadau bywyd pobl, fel pa bryd ellir fforddio cael plant, ac mae'n sbarduno anghydraddoldeb sy'n pontio'r cenedlaethau.

8. Sef dinasoedd rhanbarthol mawr yn y Deyrnas Unedig y tu allan i Lundain Fwyaf.
9. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cymhareb prisiau tai i enillion ar sail breswylio, 2020
10. Stats Cymru, Tai, Rhenti'r Sector Preifat, 2014-2019
11. Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Blynyddol llawn amser/ rhan amser Caerdydd 2014-2019
12. Gweler: Asesiad Marchnad Dai Leol Caerdydd 2015 a Phapur Briffio Tŷ'r Cyffredin: Perchentyaeth a Rhentu: Demograffeg a Chyfrifiad 2011
13. Mae canran yr aelwydydd sydd â phlant dibynnol, sy'n rhentu'n breifat wedi cynyddu o 8.4 % yn 2001 i 19.6 % yn 2011. Cyfrifiad 2001, 2011,
14. SYG, Amcangyfrifon aelwydydd mewn tlodi ar gyfer ardaloedd cynnyrch ehangach haen ganol yng Nghymru a Lloegr, Canran yr Aelwydydd o dan 60 % o'r Incwm Canolrifol; (ar ôl costau tai) (Cyfartaledd holl ACEHGau Caerdydd)
15. Yn Arolwg Holi Caerdydd, 2016 dywedodd traean (33.6 %) o bobl ifanc eu bod yn 'pryderu'n fawr' am gostau tai o gymharu â dim ond 12.8 % o bobl dros 55 oed.

## Lleihau gorlenwi

Mae gorlenwi yn broblem i rai preswylwyr yng Nghaerdydd, ac mae'n effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau, gan eu gorfodi i fyw mewn amodau afiach. Mae tystiolaeth yn dangos bod preswylwyr PDdLlE a Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru mewn mwy o berygl o amodau gorlenwi a'u bod yn llai tebygol o ddod o hyd i lety addas ar gyfer maint eu haelwydydd na grwpiau ethnig eraill.[16]

Nodwyd bod gorlenwi rhwng cenedlaethau yn ffactor sy'n cyfrannu at fwy o risg ar gyfer trosglwyddo Covid-19.[17] Bydd gwaith y Cyngor i wella'r cyflenwad a hygyrchedd tai lleol drwy adeiladu 6,500 o dai fforddiadwy newydd erbyn 2026 yn allweddol i leddfu materion gorlenwi sy'n effeithio'n anghymesur ar aelwydydd PDdLlE.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Cynyddu'r modd y caiff tai newydd eu darparu i ddiwallu'r angen am dai drwy ddatblygu safleoedd strategol y Cynllun Datblygu Lleol gan gynnwys 6,500 o dai fforddiadwy newydd erbyn 2026. | Pob preswylydd, yn enwedig aelwydydd incwm isel, preswylwyr PDdLlE a phobl ifanc. | Cynllun Corfforaethol |
| 1.2 | Adeiladu o leiaf 2,000 o gartrefi Cyngor newydd, y bydd 1,000 ohonynt yn cael eu hadeiladu erbyn mis Mai 2022 | Pob preswylydd, yn enwedig aelwydydd incwm isel, preswylwyr PDdLlE a phobl ifanc. | Cynllun Corfforaethol |

16. Grŵp ethnig yn ôl sgôr meddiannaeth (ystafelloedd), Cyfrifiad 2011 a Shelter Cymru a Tai Pawb, Digartrefedd ymhlith pobl o Boblogaethau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, 2015

17. Aldridge RW, Lewer D, Katikireddi SV et al. (6 Mai, 2020) Mae grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn Lloegr mewn mwy o berygl o farwolaeth o COVID-19: safoni data marwolaethau'r GIG yn anuniongyrchol

[fersiwn 1; adolygiad gan gymheiriaid: yn aros am adolygiad gan gymheiriaid]. Wellcome Open Res 2020, 5:88 a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (1 Mai 2020) - A yw rhai grwpiau ethnig yn fwy agored i COVID-19 nag eraill?

## Bydd gwella amodau a thelerau rhent preifat yn cefnogi plant, preswylwyr PDdLIE a phreswylwyr a aned y tu allan i'r DU

Nodweddir y Sector Tai Rhent Preifat gan rai o'r amodau tai gwaethaf ac ansicrwydd cymharol. Mae'r ffactorau hyn, ynghyd â rhenti cynyddol a diwygio lles, yn golygu mai terfynu tenantiaeth Sector Rhentu Preifat yw un o'r rhesymau mwyaf cyffredin y byddai aelwyd yng Nghaerdydd mewn perygl o fod yn ddigartref.[18]

Mae rhai grwpiau PDdLIE, ac aelwydydd sy'n cynnwys plant, yn enwedig y rhai a aned y tu allan i'r DU, yn fwy tebygol o gael eu canfod yn y ddeiliadaeth hon.[19] Gall preswylwyr nad ydynt wedi cael eu geni yn y DU, a phreswylwyr PDdLIE sy'n wladolion yn y DU, hefyd wynebu rhwystrau o ran cael mynediad i'r Sector Tai Rhent Preifat o ganlyniad i reoliadau 'Hawl i Rentu' Llywodraeth y DU.[20] Gall yr effaith hon gael ei gwaethygu ymhellach gan ddiwygiadau helaeth i system fewnfudo'r DU, a gaiff eu cyflwyno o fis Ionawr 2021.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 1.3 | Gweithio i roi terfyn ar argyfwng tai'r ddinas drwy wella'r safonau yn y sector rhentu preifat ac ym mlociau fflatiau uchel y ddinas drwy roi camau gorfodi ar waith yn erbyn asiantau a landlordiaid diegwyddor sy'n gosod a rheoli eiddo. | Pobl ifanc, preswylwyr PDdLIE ac aelwydydd incwm is | Cynllun Corfforaethol |

## Cartrefi hygyrch, arbenigol a rhai â chymorth

Mae pobl anabl a phobl hŷn yn dioddef o ddiffyg cartrefi hygyrch neu hyblyg.

Mae gan y cartrefi hyn ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod gan bobl hŷn ac anabl lety sy'n diwallu eu hanghenion, ac y gallant fyw mor annibynnol â phosibl.

Fel mewn sawl ardal, rhagfynegir y bydd poblogaeth hŷn Caerdydd yn cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn peri nifer o heriau tai. Oherwydd achosion cynyddol o gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran megis nam symudedd neu synhwyraidd, eiddilwch a chlefydau cronig, mae'n debygol y bydd angen llety arbenigol neu gymorth ychwanegol ar fwy o bobl i'w galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi presennol.

18. Gweler Ystadegau Cymru, Digartrefedd yng Nghymru 2018-2019
19. Cyfrifiad 2011, PDdLIE: 15.3 % o'r boblogaeth; 22.2 % o'r rhai sy'n rhentu'n breifat/yn byw'n ddi-rent. Mae canran yr aelwydydd â phlant dibynnol sy'n rhentu'n breifat wedi cynyddu o 8.4 % yn 2001 i 19.6 % yn 2011. Cyfrifiad 2001, 2011.
20. Cyd-gyngor er Lles Mewnfudwyr, Gwerthusiad o'r cynllun Hawl i Rentu, 2015

Gall tai gwael neu anaddas amharu'n anghyfartal ar iechyd corfforol a meddyliol, annibyniaeth a llesiant pobl hŷn.

Bydd ein Strategaeth Tai Pobl Hŷn[21] yn ymateb i'r heriau hyn a chyflenwi cydbwysedd o fathau addas o lety, gan alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol mor hir â phosibl, gyda mynediad at wasanaethau a chymorth priodol.

Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni ein cynllun Grant Cyfleusterau i'r Anabl, gan roi gwell rhyddid i breswylwyr anabl symud yn eu cartref ac o'u amgylch a helpu gyda chostau addasu cartrefi i ddiwallu anghenion preswylwyr.[22]

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 1.4 | Cyflawni'r Strategaeth Tai i Bobl Hŷn i gefnogi byw'n annibynnol, gan gynnwys deall yn llawn anghenion tai pobl hŷn ac alinio gwaith rhwng Gwasanaethau'r Cyngor a'r Gwasanaethau Iechyd gan gynnwys:<br>• Gweithio i adeiladu ac ailwampio cynlluniau 'parod am ofal' ar gyfer pobl hŷn;<br>• Parhau i ddatblygu gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl hŷn a'r rhai sydd ag anableddau, gan gynnwys llunio mesurau perfformiad ar gyfer y gwasanaeth;<br>• Datblygu modelau gofal, cymorth a gwasanaethau nyrsio arloesol. | Pobl hŷn a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu | Cynllun Corfforaethol<br><br>Strategaeth Tai Pobl Hŷn |
| 1.5 | Darparu'r cynllun Grant Cyfleusterau i'r Anabl i gefnogi aelwydydd lle mae person anabl yn byw yn yr eiddo fel ei brif breswylfa. | Pobl anabl, y rhai sy'n dioddef salwch corfforol neu feddyliol, pobl hŷn a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. | Cynllun Grant Cyfleusterau i'r Anabl |

21. Cyngor Caerdydd, Strategaeth Tai Pobl Hŷn Caerdydd
22. Cyngor Caerdydd, Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Mae sawl ffynhonnell dystiolaeth yn dangos bod Sipsiwn a Theithwyr yn profi rhai o ganlyniadau gwaethaf unrhyw grŵp ethnig ar draws ystod eang o ddangosyddion cymdeithasol. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau sy'n tynnu sylw at yr anghydraddoldebau lluosog a brofir gan Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r ffactorau cyfrannol yn gymhleth ac yn aml yn gydgysylltiedig, ond maent yn cynnwys amddifadedd, allgáu cymdeithasol a gwahaniaethu.[23]

Mae Deddf Tai Cymru 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd statudol ar yr awdurdod i ddarparu ar gyfer yr angen hwnnw. Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd[24] yn datgelu prawf o angen am lety priodol. Bydd datblygu'r gwaith o gyflawni'r ddarpariaeth hon yn allweddol i wella canlyniadau tai ac iechyd i'n cymuned Sipsiwn a Theithwyr.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 1.6 | Cyflawni ein dyletswyddau statudol mewn perthynas ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaerdydd, yn unol â Chynllun Datblygu Lleol Caerdydd. | Sipsiwn a Theithwyr | Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr<br><br>Dyletswyddau o dan Ddeddf Tai Cymru 2014<br><br>Adroddiad Cynllun Datblygu Lleol a Monitro Blynyddol Caerdydd |

23. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A yw Prydain yn Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018
24. Cyngor Caerdydd, Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, Chwefror 2016

## Ein gweledigaeth i roi terfyn ar ddigartrefedd

Mae digartrefedd yn fater o arwyddocâd eithriadol i Gaerdydd. Yn ystod cyfnod cloi y Coronfeirws, fe ddarparom raglen eang o gymorth i bobl ddigartref yn ein dinas, er mwyn sicrhau na adawyd unrhyw un ar ôl a bod gan bob preswylydd le diogel i hunan-ynysu, cadw pellter cymdeithasol a chael sicrwydd bwyd.

Mae ein gweithredu ar y cyd er mwyn amddiffyn pobl sy'n cysgu ar y stryd, a'r rhai sydd ar fin mynd yn ddigartref, yn ystod y cyfnod hwn wedi newid bywyd yn wirioneddol i gynifer o'r rhai sydd wedi cael cymorth. Rydym yn glir na ellir mynd yn ôl a rhaid i'r rhaglen cymorth tai 'pawb i fewn' ddangos y ffordd at roi terfyn ar ddigartrefedd am byth yng Nghaerdydd.

Cyn y pandemig, roedd strategaeth y Cyngor, ar gyfer cefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd i gael gafael ar gymorth cynhwysfawr ac arbenigol, eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ei flwyddyn gyntaf. Cynorthwywyd dwy ran o dair o'r rhai sy'n cysgu ar y stryd yng Nghaerdydd i dai a chymorth o fewn y deuddeg mis cyntaf.[25] Yng ngwanwyn a haf 2020, gwnaethom gyflymu ein rhaglen newid mewn partneriaeth â'n cydweithwyr o'r sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat, ac erbyn mis Ebrill 2020, roedd gan bob un sy'n cysgu ar y stryd yn y ddinas le diogel i gysgu a mynediad at well cymorth arbenigol yn ystod y dydd.

Rydym wedi nodi gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghaerdydd. Mae'n newid system gyfan ar gyfer cymorth digartrefedd, sy'n blaenoriaethu asesiad amlasiantaethol o ansawdd uchel, ailgartrefu cyflym a chymorth llety arbenigol i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Gweithredu'r model hwn yw un o elfennau mwyaf uchelgeisiol a hanfodol ein gweledigaeth ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghaerdydd. Mae cartref yn hanfodol i iechyd, urddas, diogelwch a chynhwysiant unigolyn yn ein cymuned.

Er y gall pobl fod yn ddigartref am amryw o resymau, mae'r prinder tai fforddiadwy, wedi'i ddwysáu gan ddiwygiadau lles, gan gynnwys gostyngiadau yng nghyfraddau'r Lwfans Tai Lleol a'r cap ar fudd-daliadau, yn ffactorau pwysig.

Bydd ein rhaglen uchelgeisiol ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghaerdydd hefyd yn allweddol wrth lunio canlyniadau nifer o grwpiau nodweddion gwarchodedig yn y ddinas. Yn 2019, roedd preswylwyr Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi eu gorgynrychioli ymhlith aelwydydd a oedd yn gofyn am gymorth digartrefedd, sef 29.5 % o'r ceisiadau am gymorth.[26] Mae ymchwil gan Shelter Cymru a Thai Pawb hefyd yn awgrymu y gallai digartrefedd ymhlith preswylwyr PDdLlE yng Nghymru fod hyd yn oed yn fwy cyffredin nag y mae'r data hwn yn ei awgrymu, oherwydd digartrefedd cudd a bylchau yn y setiau data presennol.[27]

---

25. Cyngor Caerdydd, data Digartrefedd, 2018 a 2019
26. Stats Cymru, Aelwydydd y darparwyd cymorth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn, yn ôl grŵp ethnig yr ymgeisydd, Caerdydd, 2018-2019 (Ac eithrio 'ethnigrwydd nad yw'n hysbys')
27. Shelter Cymru a Tai Pawb, Digartrefedd ymhlith pobl o Boblogaethau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, 2015

Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches,[28] pobl ifanc,[29] y rhai sydd wedi dioddef cam-drin domestig[30] a phobl LHDT+[31] hefyd yn grwpiau sy'n wynebu risg ychwanegol o ddigartrefedd. Mae nifer anghymesur o bobl hefyd yn profi digartrefedd sy'n dioddef o salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd, gydag ymchwil gan Crisis yn canfod bod pobl ddigartref bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi profi salwch meddwl ag yw'r boblogaeth gyffredinol. Mae'r un ymchwil yn dangos, wrth i dai unigolyn ddod yn fwy sefydlog, fod cyfradd y salwch meddwl difrifol yn gostwng.[32]

Ers 2015, mae nifer yr aelwydydd sy'n ceisio cymorth digartrefedd, yr asesir eu bod yn agored i niwed oherwydd salwch meddwl, wedi cynyddu o 21 i 90 yn 2019.[33]

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 1.7 | Parhau i gyflwyno'r Strategaeth Cysgu ar y Stryd a'r strategaeth digartrefedd gan gynnwys y canlynol:<br>• Bwrw ymlaen â'r Adolygiad Strategol o wasanaethau i bobl digartref sengl;<br>• Adolygu a gwella llety brys, gan barhau er mwyn sicrhau nad oes neb yn gorfod cysgu ar y stryd yng Nghaerdydd;<br>• Ymestyn capasiti Cynlluniau Tŷ yn Gyntaf gan ddefnyddio cartrefi yn y sector rhentu cymdeithasol a phreifat a datblygu cynlluniau i wneud y cynllun yn gynaliadwy;<br>• Parhau i ddatblygu'r tîm amlasiantaeth o gylch pobl sy'n cysgu ar y stryd, gwella'r cymorth sydd ar gael i'r rhai â phroblemau camddefnyddio sylweddau, ac i'r rhai â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd. Ymhellach, i gryfhau cysylltiadau â'r system cyfiawnder troseddol hefyd drwy gael gwell mewnbwn gan y gwasanaeth prawf i'r tîm. | Pobl anabl, pobl sydd â salwch meddwl, pobl sengl ar incwm isel, ffoaduriaid a dioddefwyr trais domestig. | Cynllun Corfforaethol<br><br>Strategaeth Cysgu ar y Stryd<br><br>Strategaeth Ddigartrefedd |

28. Gweler: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Digartrefedd ymhlith ffoaduriaid, 2018
29. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Digartrefedd ieuenctid a'r rhai sy'n gadael gofal: Mapio ymyriadau yng Nghymru, 2018
30. Bywydau Diogel, Yn Ddiogel Gartref: Digartrefedd a cham-drin domestig, 2018
31. Yn ôl Ymddiriedolaeth Albert Kennedy, mae bron i un o bob pedwar o bobl ifanc ddigartref yn nodi eu bod yn LHDT, Digartrefedd Ieuenctid LHDT: Gwaith Cwmpasu Achosion Cenedlaethol y DU, Nifer yr Achosion, Ymatebion a Chanlyniadau, 2015
32. Gweler: Crisis, Iechyd Meddwl
33. Cartrefi y canfuwyd eu bod yn gymwys i gael cymorth, yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol yn ystod y flwyddyn: Blaenoriaeth - Aelwydydd lle mae aelod yn agored i niwed oherwydd: Salwch meddwl / anabledd dysgu / anawsterau dysgu, Stats Cymru, Caerdydd, 2015-2019

## Economi gynhwysol a theg

Ni fu ein gweledigaeth ar gyfer economi fyd-eang decach erioed yn bwysicach. Mae'r Coronafeirws wedi tynnu'r byd i'r argyfwng economaidd gwaethaf ers y Dirwasgiad Mawr ac mae wedi arwain at golli swyddi ledled y wlad. Nid oes unman yn teimlo effaith economaidd a chymdeithasol Covid-19 yn y DU yn fwy na'i dinasoedd a'i threfi mwyaf. Gyda'i gilydd, maent yn cyfrif am tua 60 % o allbwn economaidd y DU ac maent yn gartref i fwy na hanner poblogaeth y DU.[34]

Yn frawychus, mae colli swyddi wedi cael effaith anghymesur ar grwpiau difreintiedig, gan gynnwys y rhai sydd ag addysg lai ffurfiol, pobl ifanc a'r rhai ar gontractau dros dro neu ansicr. Er nad yw effaith lawn yr argyfwng yn hysbys eto, mae pandemigau'r gorffennol wedi taro rhagolygon swyddi ac enillion enillwyr isel galetaf.[35]

Mae llawer o ansicrwydd o hyd ynglŷn â llwybr ein hadferiad economaidd, ond mae un peth yn glir: bydd angen i ni nid yn unig gynnal, ond cyflymu, ein momentwm er mwyn creu economi ddinas fwy cynhwysol. Mae gweithredu o'r fath yn hanfodol os ydym am atal gwreiddio a gwaethygu anghydraddoldeb yn ein dinas yn y blynyddoedd i ddod.

Mae Covid-19 wedi tynnu sylw at yr ansicrwydd sy'n tynnu llawer o gyflogeion ar gyflogau isel i dlodi, ac nid yw Caerdydd yn eithriad. Gall darparu swyddi diogel o safon chwarae rhan ganolog yn adferiad ein dinas - a rhaid iddynt. Bydd angen gweithredu pendant ac ataliol ar hyn sy'n canolbwyntio ar gefnogi'r rhai sydd wedi profi effaith economaidd y pandemig yn fwyaf difrifol, nid yn unig drwy gefnogi creu swyddi, ond hefyd darparu cymorth i mewn i waith wedi'i dargedu i'r rhai sydd wedi colli eu cyflogaeth, neu sy'n ceisio camu i fyny am y tro cyntaf wrth iddynt adael yr ysgol neu'r brifysgol.

Gallai'r gwahaniaethau economaidd presennol arwain at effaith ddinistriol ac anghymesur Covid-19 ar bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith ac mewn gwaith ansicr na'u cymheiriaid Gwyn a datgelodd adroddiad diweddar fod Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n fileniaid 47 % yn fwy tebygol o fod ar gontract heb oriau.[36] Mae tystiolaeth ddiweddar ledled y DU yn dangos bod menywod o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, yn arbennig, yn profi baich economaidd sylweddol ac anghymesur o ganlyniad i Covid-19.[37]

34. Gweler y dadansoddiad gan: Y Ganolfan Ddinasoedd, Beth mae argyfwng Covid-19 yn ei olygu i economïau dinasoedd a threfi mawr Prydain?
35. Cronfa Ariannol Ryngwladol, Sut mae Pandemigau'n Gadael y Tlawd Hyd yn oed Ymhellach Ar Ôl, 2020
36. Athrofa Addysg UCL, Ymddiriedolaeth Carnegie UK, ac Ymgyrch Pleidlais Ddu, Anghydraddoldeb Hiliol yn y Gweithlu: Archwilio cysylltiadau rhwng gwaith, ethnigrwydd ac iechyd meddwl, 2017
37. Grŵp Cyllideb Menywod, Ysgol Economeg Llundain, Prifysgol y Frenhines Mary yn Llundain, Cymdeithas Fawcett, Menywod PDdLlE a Covid-19 – Tystiolaeth ymchwil, 2020

GWELER HEFYD:
Amcan 2: Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a thu hwnt Y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol a Chynllun Gweithredu'r Cyflog Byw
Amcan 4: Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol

Dylai marchnad lafur Caerdydd fod yn agored ac yn hygyrch i bawb ond nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Nid yw pobl anabl a phobl o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynrychioli'n dda yng ngweithlu'r ddinas ac maent yn fwy tebygol o brofi cyflog isel.[38]

Mae poblogaeth amrywiol Caerdydd ac ymdeimlad pwerus o'i hanes fel dinas borthladd a chanolfan ymfudo yn rhoi cyfle unigryw i gyflogwyr gyflogi cyflogeion talentog o amrywiaeth enfawr o gefndiroedd a phrofiadau. Fodd bynnag, yn rhy aml nid yw gweithleoedd a diwylliannau gwaith yn gynhwysol ac mae recriwtio a datblygu i rai yn dal i gael eu cyfyngu gan wahaniaethu a rhagfarn. Mae'r cyngor yn benderfynol, fel cyflogwr ac fel cynullydd ar gyfer newid, i ddatblygu arferion cyflogaeth rhagorol i ddileu hyn, ac annog cyflogwyr mawr eraill i wneud yr un peth.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 1.8 | Gwella'r Gwasanaeth i Mewn i Waith ymhellach drwy barhau i integreiddio gwasanaethau cymorth cyflogaeth. Bydd hyn yn cynnwys:<br>• Adolygu cymorth i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion;<br>• Alinio'n llawn y rhaglen 'Dysgu i Weithio' a gynigir drwy Ddysgu Oedolion yn y Gymuned â'r Gwasanaeth I Mewn I Waith;<br>• Darparu ymgysylltiad a chymorth effeithiol gan gyflogwyr ar gyfer symud i hunangyflogaeth;<br>• Parhau i hyrwyddo ac ymestyn cyfleoedd gwirfoddoli. | Pobl ifanc, Pobl hŷn, Pobl Anabl, pobl PDdLIE, menywod ac aelwydydd incwm is. | Cynllun Corfforaethol |

38. Arolwg Blynyddol y Boblogaeth 2019-2020

## Lle gwych i dyfu fyny i blant o bob cefndir s

Canfuwyd bod gan blant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi gyrhaeddiad addysgol is, bod ganddynt fwy o achosion o broblemau ymddygiad ac ymddygiad peryglus, yn ogystal ag arwyddion cynnar o broblemau iechyd bywyd diweddarach, megis gordewdra. Gwyddys bod y rhain i gyd yn ffactorau sy'n cyfrannu at batrymau symudedd cymdeithasol, anghydraddoldebau iechyd a thlodi o fewn cenedlaethau plant y dyfodol.[39] Mae yna gysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad blynyddoedd cynnar. Yng Nghaerdydd, mae bwlch cyrhaeddiad o 9.6 % ar ddiwedd cyfnod Ysgol Gynradd yn bodoli rhwng y rheini sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim a'r rhai nad ydynt. Er bod hyn yn is na bwlch Cymru o 14.2 % , a bod y bwlch wedi lleihau'n sylweddol dros y degawd diwethaf, mae angen gwneud rhagor o waith i gefnogi'r bobl ifanc hyn i gyflawni eu potensial.

Bydd gwaith ehangach y Cyngor i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yng Nghaerdydd, fel y nodir drwy gydol y Strategaeth hon, yn helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi plant a gwella symudedd cymdeithasol i genedlaethau'r dyfodol.

### Darpariaeth ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn llai tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol na'u cyfoedion. Er mwyn helpu i wella canlyniadau ar gyfer dysgwyr ADY, byddwn yn datblygu modelau darpariaeth addysg amgen gwell ar gyfer dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd rheoli gofynion cwricwlwm prif ffrwd amser llawn. Bydd hyn yn cynnwys adnewyddu Strategaeth Hygyrchedd Caerdydd a chanllawiau i ysgolion er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag anableddau ac anghenion gofal iechyd yn cael eu cynnwys yn effeithiol yn y dysgu.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 1.9 | Datblygu modelau newydd o ddarpariaeth addysg amgen gwell i ddysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â galwadau cwricwlwm prif ffrwd llawn-amser. Byddwn yn gwneud hyn drwy ail-lunio a gwella darpariaeth a gwasanaethau arbenigol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn sicrhau bod digon o ddarpariaeth o safon uchel ar gael i ateb y galw presennol ac a ragwelir o 2019 i 2022. | Pobl ifanc, pobl o gefndiroedd incwm isel, y rhai sy'n profi salwch corfforol a/neu feddyliol a phobl anabl. | Cynllun Corfforaethol |

39. Gweler casgliad ymchwil gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Mae tlodi plant yn taflu cysgod hir dros symudedd cymdeithasol

## Addewid Caerdydd a chefnogi trosglwyddiad pobl ifanc i fyd gwaith

Gydag ofnau cynyddol am effaith ddinistriol bosibl y Coronfeirws ar ragolygon swyddi pobl ifanc,40 bydd ein rhaglen uchelgeisiol Addewid Caerdydd hyd yn oed yn fwy hanfodol i gefnogi pobl ifanc Caerdydd i gyrraedd eu potensial yn llawn. Mae Addewid Caerdydd yn dwyn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ynghyd i weithio mewn partneriaeth i gysylltu pobl ifanc â'r cyfleoedd gwaith amrywiol sydd ar gael mewn ystod eang o sectorau.[41]

Mae enillwyr cyflog ifanc wedi teimlo effaith anghymesur argyfwng y Coronfeirws. Mae'r cyflogeion hyn yn fwy tebygol o fod wedi colli gwaith neu wedi cael eu ffyrlo oherwydd yr argyfwng na rhai o oedran uwch, ac wedi profi'r newid cyflog mwyaf gyda chyfrannau uchel yn colli enillion.[42]

Rydym yn cydnabod bod rhai pobl ifanc yn wynebu heriau a rhwystrau ychwanegol, sylweddol, i ddilyniant y farchnad lafur, gan gynnwys y rhai o deuluoedd incwm isel,[43] y rhai sy'n gadael gofal,[44] a rhai pobl ifanc PDdLIE,[45] a byddwn yn ceisio talu sylw penodol i'r grwpiau hyn. Rydym yn benderfynol o greu'r amgylchedd lle mae pobl ifanc o bob cefndir, yn enwedig ein pobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed, yn cael cymorth i gyflawni eu llawn botensial a throsglwyddo'n llwyddiannus i fyd oedolion a'r byd gwaith. Dim ond drwy gyflawni hyn y byddwn yn torri cylchoedd sefydledig o dlodi sy'n pontio'r cenedlaethau.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 1.10 | Cynorthwyo pobl ifanc i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant trwy wireddu Addewid Caerdydd, gyda ffocws ar y canlynol ym mlynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21:<br>• Creu partneriaethau ysgol/busnes sy'n targedu datblygu sgiliau yn sectorau twf economaidd allweddol Prifddinas Ranbarth Caerdydd;<br>• Cyflwyno rhaglenni cymorth a mentora â ffocws ar gyfer pobl ifanc; | Pobl ifanc, pobl o gefndiroedd incwm isel, preswylwyr PDdLIE, preswylwyr anabl a menywod a merched | Cynllun Corfforaethol |

40. Gweler: Resolution Foundation, Gweithwyr Ifanc yn ystod argyfwng y Coronfeirws: Canfyddiadau o arolwg y Coronfeirws y Resolution Foundation, Mai 2020
41. Rhagor o wybodaeth: Addewid Caerdydd
42. rolwg Gweithwyr Ifanc y Resolution Foundation
43. Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Codwr Cymdeithasol sydd wedi Torri? Sut i Hyrwyddo Symudedd Cymdeithasol, 2018
44. Become Charity, Gofal: Y Ffeithiau - cyflogaeth.
45. Llywodraeth y DU, Ffeithiau a Ffigyrau Ethnigrwydd, Gwaith, Cyflog a Budd-daliadau

Canfu ymchwil gan yr OECD fod symudedd cymdeithasol wedi'i rewi gymaint fel y byddai'n cymryd pum cenhedlaeth i deulu tlotach yn y DU gyrraedd yr incwm cyfartalog.

## Plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal

Mae gennym ymrwymiad i sicrhau bod plant yn ffynnu yn ein gofal. Yn genedlaethol, nid yw 47 % o bobl sy'n gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal.[46] Bydd gwella cyrhaeddiad addysgol a darparu cymorth integredig gwell yn darparu sylfaen hanfodol i wella canlyniadau i blant yng Nghaerdydd sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

Disgwylir i'r rhai sy'n gadael gofal ddod yn annibynnol ac yn hunangynhaliol yn llawer cynharach na'u cyfoedion nad ydynt mewn gofal, gan gyflymu eu cyfnod pontio i fod yn oedolion. Bydd ein Cynllun Gweithredu Strategaeth Rhianta Corfforaethol adolygedig yn sbarduno camau gweithredu i wella canlyniadau a llesiant Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, drwy sicrhau bod ganddynt fwy o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac y gallant gyflawni eu potensial.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 1.11 | Rhoi cynllun gweithredu'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol adolygedig ar waith erbyn Mawrth 2023 i wella canlyniadau a llesiant Plant sy'n Derbyn Gofal drwy wneud y canlynol:<br>• Datblygu trefniadau partneriaeth mewn cysylltiad â mynediad i addysg a chyrhaeddiad addysgol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal;<br>• Gwella'r trefniadau pontio a symud ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i'r rhai sy'n gadael gofal erbyn Mawrth 2021. | Pobl ifanc, Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. | Cynllun Corfforaethol<br>Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rhianta Corfforaethol |

46. Adolygiad Llywodraeth Cymru: Ymestyn rhianta corfforaethol ar draws gwasanaethau cyhoeddus: plant sy'n derbyn gofal, 2020

## Gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc

Mae bywydau plant a phobl ifanc ledled y DU wedi eu troi ben i waered gan y pandemig. Mae bron pob person ifanc wedi gorfod addasu i newidiadau dramatig yn eu haddysg neu eu cyflogaeth, eu bywyd arferol a'u bywyd cartref.

Mae rhai wedi profi profedigaeth neu brofiadau trawmatig eraill yn ystod y cyfnod cloi, tra bod grwpiau a oedd eisoes ar y cyrion neu dan anfantais, bellach yn debygol o ddioddef sefyllfa waeth. Canfu ymchwil gan Young Minds fod 80 % o bobl ifanc sydd â hanes o anghenion iechyd meddwl yn cytuno bod pandemig y Coronfeirws wedi gwneud eu hiechyd meddwl yn waeth, a dywedodd 87 % eu bod yn teimlo'n unig neu'n ynysig yn ystod y cyfnod cloi.[47]

Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg hefyd yn dangos bod effaith Coronafeirws yn ehangu'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd meddwl a chorfforol pobl ifanc, gyda rhai plant yn fwy agored i effeithiau'r pandemig ar iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl a niwroddatblygol sy'n bodoli eisoes, plant mewn cartrefi lle mae trais domestig yn bryder, a phlant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.[48] Mae plant o grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o brofi canlyniadau iechyd gwael ac, felly, maent yn fwy tebygol o brofi anawsterau iechyd meddwl yn ystod y pandemig.[49]

Mae'r cyd-destun hwn yn rhoi hwb pellach i'n gwaith i drawsnewid iechyd meddwl a chymorth lles emosiynol i bobl ifanc yn y ddinas.



47. Young Minds, Y Coronafeirws: Yr effaith ar Bobl Ifanc sydd ag Anghenion Iechyd Meddwl, 2020
48. Uned Ymarfer seiliedig ar Dystiolaeth, Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg: Y coronafeirws ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, Mehefin 2020
49. Ibid

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 1.12 | Gwella iechyd meddyliol a lles emosiynol ar gyfer pobl ifanc. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio mewn partneriaeth i gynnig dull integredig o gefnogi iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc ar bob rhan o siwrnai'r plentyn erbyn Mawrth 2023 drwy:<br>• Adolygu effeithiolrwydd yr atgyfeiriadau integredig ar gyfer Gwasanaeth Llesiant Teuluol Barnardo's drwy'r Porth i Deuluoedd;<br>• Datblygu dull o asesu ar y cyd ar draws timau Cymorth Cynnar a gwasanaethau a gomisiynwyd er mwyn sicrhau bod anghenion teuluol yn cael eu diwallu erbyn mis Mehefin 2020;<br>• Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) i recriwtio dau Arbenigwr Iechyd a Lles Emosiynol Pobl Ifanc i weithio gyda thimau Helpu Teuluoedd, Cymorth i Deuluoedd a thimau Rhianta Caerdydd erbyn Mehefin 2020;<br>• Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddatblygu llwybrau atgyfeiriwyr dibynadwy o dimau Cymorth Cynnar i Hyb Iechyd Emosiynol a Meddyliol Un Pwynt Mynediad arfaethedig y GIG erbyn Ionawr 2021;<br>• Treialu rôl cyflogeion cydnerthu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i feithrin gallu i ysgolion fynd i'r afael â nifer y plant y mae nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn effeithio arnynt;<br>• Cynnig cefnogaeth emosiynol ac iechyd meddwl i bobl ifanc trwy ymyriadau gwaith ieuenctid a'r rhaglen Cwricwlwm Am Oes erbyn Ebrill 2021. | Pobl ifanc, y rhai sy'n dioddef salwch meddwl, preswylwyr PDdLIE, plant o deuluoedd incwm isel, plant anabl, plant LHDT+ a Phlant sy'n Derbyn Gofal. | Cynllun Corfforaethol |

## Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Yn achos nifer fechan o blant, gall y risgiau yn eu bywydau, eu dewisiadau gwael neu weithredoedd gan oedolion eu rhoi mewn perygl, gan ddod â nhw'n agos at y system cyfiawnder ieuenctid neu i mewn iddi wrth iddynt ddod i sylw'r heddlu neu gael eu harestio. Gall y plant hyn wneud niwed i eraill, eu teuluoedd a'u dyfodol. Rydym yn canolbwyntio ar y ddau grŵp - y plant sy'n achosi'r niwed a'r rhai sy'n cael eu niweidio neu sydd mewn perygl o niwed. Wrth wraidd ein gwaith mae'r ffaith mai plant yw'r rhain yn gyntaf, a dim ond yn ail y maent yn blant sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Mae'r mwyafrif helaeth o droseddwyr ifanc yng Nghaerdydd yn ddynion.[50] Ledled y DU, mae pobl ifanc o gefndiroedd Du a Gwyn cymysg yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol, ac mae'r rheini o gefndiroedd Gwyn ac Asiaidd wedi'u tangynrychioli.[51] Mae tystiolaeth yn dangos bod Plant sy'n Derbyn Gofal hefyd yn cael eu gorgynrychioli'n sylweddol mewn sefydliadau troseddwyr ifanc ledled y DU.[52]

Mae gan blant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder ganlyniadau iechyd gwaeth na phlant yn y boblogaeth gyffredinol ac maent yn debygol o fod wedi profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod PNPau)

Bydd ein Strategaeth Datblygu Cyfiawnder Ieuenctid, 'Ein Dyfodol Ni i Gyd',[53] yn trawsnewid gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghaerdydd i ddarparu gwasanaethau atal, ymyrraeth gynnar a chymorth o ansawdd uchel i bobl ifanc yng Nghaerdydd. Bydd gwneud hyn yn iawn yn darparu gwell dyfodol i blant yn y system cyfiawnder ieuenctid ac yn cadw plant a'n cymunedau'n ddiogel rhag niwed.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 1.13 | Cyflawni Strategaeth Datblygu Cyfiawnder Ieuenctid Ein Dyfodol Ni i Gyd drwy'r canlynol:<br>• Cwblhau adolygiad gwasanaeth o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid erbyn 2021<br>• Alinio'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn agos â darpariaeth y Gwasanaeth i'r Glasoed, er mwyn lleihau cyfraddau troseddu/aildroseddu. | Pobl ifanc, y rhai sy'n dioddef salwch meddwl, preswylwyr PDdLIE, plant o deuluoedd incwm isel, Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. | Strategaeth Datblygu Cyfiawnder Ieuenctid Ein Dyfodol Ni i Gyd |

50. Mae 88 % o bobl ifanc a gefnogir gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ddynion (fel ym mis Gorffennaf 2020), data Cyngor Caerdydd
51. Gweler: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ystadegau hil a'r system cyfiawnder troseddol, 2018
52. Gweler: Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, Adolygiad Annibynnol o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Laming, Mewn Gofal, Allan o Helynt, Sut y gellir trawsnewid cyfleoedd bywyd plant mewn gofal drwy eu diogelu rhag cymryd rhan ddiangen yn y system cyfiawnder troseddol, 2016
53. Cyngor Caerdydd, Ein Dyfodol Ni i Gyd: Strategaeth Datblygu Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd, 2020-2022

## Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched

Mewn ymateb i Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a'r strategaeth genedlaethol ddilynol, mae partneriaid yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg wedi datblygu eu Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol rhanbarthol 2018-2023 – 'Mae yn Ein Dwylo Ni'.

Er y gall unrhyw un (menywod, dynion, plant a phobl ifanc) brofi a chael eu heffeithio gan gam-drin domestig a thrais rhywiol, mae tystiolaeth yn dangos bod menywod a merched yn cael eu heffeithio'n anghymesur. Mewn 75% o'r troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2019, roedd y dioddefwr yn fenywaidd. [54]

Mae ein strategaeth bartneriaeth yn nodi safonau uchel ar gyfer gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gyda ffocws cryf ar atal er mwyn sicrhau bod pobl sy'n byw, yn gweithio, yn astudio ac yn ymweld â'n rhanbarth yn cael cyfle i fyw bywydau cadarnhaol ac annibynnol heb i drais a cham-drin effeithio arnynt.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 1.14 | Cyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023 gan gynnwys lansio gwasanaeth rhanbarthol i ddioddefwyr gwrywaidd. | Menywod a merched, dynion, y rhai sy'n profi cam-drin domestig, plant a phobl ifanc. | Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023 |



54. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Nodweddion dioddefwyr cam-drin domestig, Cymru a Lloegr: y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2019

# Amcan 2: Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a'r tu hwnt

## Cyflwyniad

Mae'n hanfodol bod Caerdydd, fel prifddinas Cymru, yn gosod safonau uchel ar gyfer cydraddoldeb. Gyda ffactorau technolegol, demograffig, amgylcheddol a gwleidyddol cymhleth yn debygol o ail-lunio prifddinas a rhanbarth Cymru yn y blynyddoedd i ddod, rhaid i weithredu ar anghydraddoldeb cynyddol barhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Gaerdydd wrth i ni ddechrau ar ddegawd newydd.

Rydym am i bobl edrych i'r Cyngor, a'r ddinas gyfan, fel model o arfer da wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chynhwysiant.  Bydd ein dysgu, ac yn enwedig lle'r ydym wedi meithrin dulliau llwyddiannus sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn arwain y ffordd ar gyfer Cymru decach a mwy cynhwysol, gan ein bod yn rhannu ein dysgu a'n cynnydd gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'n cymunedau ehangach.

Mae hyn yn golygu arloesi dulliau newydd a mynd y tu hwnt i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i gyflwyno mentrau a darpar fentrau mentrus sy'n rhoi ffocws i rai o'r materion cynhwysiant mwyaf a wynebwn yn y ddinas. Mae pob un o'r mentrau isod yn canolbwyntio nid yn unig ar nodi a gweithredu camau gweithredu y gallwn eu cyflawni ar unwaith, ond gwella ein dealltwriaeth a'n dull strategol o sicrhau newid hirdymor sy'n pontio'r cenedlaethau, a rhannu'r dysgu hwnnw drwy ein sefydliad a gyda'n partneriaid.

## Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd

Mae anghydraddoldeb hiliol yn parhau i fodoli yng Nghaerdydd, Cymru a'r DU. Yn hydref 2020, bydd Cyngor Caerdydd yn cynnull Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y ddinas.

Bydd y Tasglu yn arwain camau gweithredu cydlynol a strategol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghaerdydd, ar y cyd â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a chyflogwyr pwysig y ddinas. Bydd yn gyfrifol am hyrwyddo rhaglen o newid a thrawsnewid er mwyn creu dinas decach i'n preswylwyr sydd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Yn ystod haf 2020, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ffrydiau gwaith â blaenoriaeth y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol er mwyn deall beth, ym marn ein preswylwyr, yw'r problemau mwyaf, a'r cyfleoedd mwyaf, i breswylwyr Caerdydd sydd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, fel y gallwn ganolbwyntio ein syniadau a'n hadnoddau i ganfod yr atebion a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

**Cydraddoldeb Hil: Y Dystiolaeth**

Mae'r cyd-destun ar gyfer sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd wedi'i ddogfennu'n dda mewn sawl astudiaeth, adolygiad ac ymchwiliad diweddar, sy'n datgelu graddau'r anghydraddoldeb hiliol yn y DU, gan gynnwys:

- Mae'r Archwiliad o Wahaniaethau ar sail Hil, a gyhoeddwyd yn 2017, yn dangos anghydraddoldebau rhwng ethnigrwydd o ran cyrhaeddiad addysgol, iechyd, cyflogaeth ac o fewn y system cyfiawnder troseddol.
- Darganfu Adolygiad McGregor-Smith o hil yn y gweithle, a gyhoeddwyd yn 2017, fod pobl o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn dal i fod dan anfantais yn y gweithle ac yn wynebu cyfraddau cyflogaeth is na'u cymheiriaid gwyn.
- Darganfu Adolygiad Lammy, a gyhoeddwyd hefyd yn 2017, tystiolaeth o ragfarn a gwahaniaethu yn erbyn pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr.
- Darganfu'r Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd o Windrush, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, fod y Swyddfa Gartref yn dangos, "anwybodaeth sefydliadol ac agwedd ddifeddwl tuag at fater hil."

Gan adolygu ein sylfaen dystiolaeth am anghydraddoldeb hiliol yng Nghaerdydd, Cymru a'r DU yn fwy cyffredinol, rydym wedi cynnig rhai meysydd y gellid canolbwyntio arnynt i ddechrau. Mae'r awgrymiadau hyn yn feysydd lle credwn y gallai'r Tasglu gael effaith sylweddol o ran arwain newid ystyrlon er mwyn hybu cydraddoldeb hiliol, gan gynnwys:

- Ystyried beth arall y gellir ei wneud er mwyn sicrhau bod aelodau a gweithlu'r Cyngor yn cynrychioli amrywiaeth lawn y ddinas y mae'n ei gwasanaethu.
- Adolygu profiadau mewn addysg plant a phobl ifanc sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
- Cefnogi preswylwyr sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth o ansawdd uchel
- Adolygu sut rydym yn coffáu ein hanes mewn mannau cyhoeddus a bywyd diwylliannol. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi'r archwiliad ledled Cymru o gerfluniau, enwau strydoedd ac adeiladau, o fewn cyd-destun archwilio cysylltiadau â'r fasnach gaethweision. [55]
- Cefnogi cyfraniad dinesig a democrataidd cymunedau PDdLlE trwy gofrestru pleidleiswyr a sicrhau bod cymunedau PDdLlE Caerdydd yn cael eu cyfrif yng Nghyfrifiad 2021.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i weithredu'n gydgysylltiedig ar anghydraddoldeb i breswylwyr Caerdydd sy'n Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. | Preswylwyr PDdLlE, plant a phobl ifanc ac aelwydydd incwm isel. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |

55. Llywodraeth Cymru, Mae Bywydau Du o Bwys: Prif Weinidog Cymru yn cyhoeddi archwiliad o gerfluniau ac enwau strydoedd ac adeiladau

## Dinas sy'n Dda i Blant

Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yng Nghymru i gymryd rhan ym menter DU UNICEF, Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant.[56]

Ein huchelgais yw i Gaerdydd gael ei hadnabod fel Dinas sy'n Dda i Blant: dinas â phobl ifanc wrth ei gwraidd, lle mae hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu parchu gan bawb, a bod y ddinas yn lle sy'n wych i gael eich magu.

Mae ein strategaeth uchelgeisiol yn creu map ffordd tuag at ddinas lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal ym mhopeth a wnânt, maent yn ddiogel, yn cael eu parchu ac yn rhydd o unrhyw fath o wahaniaethu neu niwed.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 2.2 | Hyrwyddo a chyflawni hawliau plant trwy ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant UNICEF erbyn 2021, gyda gwaith yn cynnwys:<br>• Sicrhau bod holl ysgolion Caerdydd wedi eu dynodi yn Ysgolion sy'n Parchu Hawliau<br>• Datblygu 'Pasbort i Ddinas Caerdydd' a fydd yn sicrhau y gall pob plentyn gael mynediad i amrywiaeth eang o brofiadau allgyrsiol ledled y ddinas | Plant a phobl ifanc | Cynllun Corfforaethol<br>Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant |

56. Cyngor Caerdydd, Strategaeth Dinas Sy'n Dda i Blant, 2018

## Gwella Cyfranogiad Dinesig

Etholiadau Senedd Cymru y flwyddyn nesaf fydd y cyntaf lle caniateir i bobl ifanc 16 ac 17 oed a gwladolion tramor sy'n preswylio'n gyfreithlon bleidleisio yng Nghymru, gan ehangu'r etholfraint yn sylweddol.

Yn 2020-2021, byddwn yn cyflwyno ymgyrch cofrestru pleidleiswyr wedi'i thargedu er mwyn sicrhau i'r eithaf bod y grwpiau hyn o breswylwyr yng Nghaerdydd yn cofrestru. Bydd hyn yn helpu er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael heb bleidlais a'u bod yn cael eu cynrychioli'n deg yn Senedd Cymru.

Yn 2021, bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyflwyno eu Cyfrifiad unwaith bob degawd yng Nghymru a Lloegr. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y Cyfrifiad.

Y tu hwnt i fod yn gyfrif syml o bobl ac asedau, mae cymryd cyfrifiad cyfoes yn darparu gwybodaeth hanfodol am ein cymunedau, i ddeall a gwella eu bywydau materol a chymdeithasol, a rhoi dealltwriaeth fanwl o ba adnoddau sydd eu hangen ym mha feysydd. Mae cyfrifiadau'n nodi'r meysydd lle mae'r boblogaeth yn tyfu ac yn lleihau fwyaf, sy'n wybodaeth hanfodol ar gyfer cynllunio trefol ac ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol fel addysg ac iechyd.

Bydd pandemig y Coronafeirws bron yn sicr yn ei gwneud yn anos cynnal cyfrif cyfrifiad priodol, a byddwn yn gweithio'n agos gyda staff lleol y Swyddfa Ystadegau Cyffredinol, ar draws adrannau'r Cyngor a gyda'n partneriaid i gyrraedd cymunedau a all fod heb eu cyfrif.

Pan gaiff ei gyhoeddi, bydd data Cyfrifiad 2021 yn rhoi darlun cyfoethog o gydraddoldeb a newid ym mhoblogaeth y ddinas. Byddwn yn dadansoddi'r data hwn ac yn datblygu sesiynau briffio ar gyfer staff y cyngor a'n partneriaid i gefnogi dulliau a arweinir gan dystiolaeth o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghaerdydd.

Yn ogystal, mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cyflwyno dyletswydd i baratoi, ymgynghori ar, cyhoeddi ac adolygu 'strategaeth cyfranogiad y cyhoedd' gyda'r nod o'i gwneud yn haws i aelodau'r cyhoedd ddeall sut mae llywodraeth leol yn gweithredu, sut y mae'n gwneud penderfyniadau, a sut y gall pobl leol ddilyn trafodion, rhoi eu barn, a chael y farn yna i gael ei hystyried.[57]

Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion i gyflawni hyn, gan roi sylw arbennig i'r grwpiau hynny y mae ein tystiolaeth yn awgrymu yw'r rhai lleiaf a glywir wrth wneud penderfyniadau, er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd.

57. Gweler: Bil Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2019

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 2.3 | Cydlynu gweithgarwch i gyflawni Cyfrifiad 2021 mewn partneriaeth â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, er mwyn sicrhau bod pob preswylydd yn cael ei gyfrif a bod eu hanghenion yn cael eu deall wrth gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. | Pob preswylydd ond yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel, preswylwyr PDdLlE, plant a phobl ifanc | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |
| 2.4 | Cyflwyno ymgyrch cofrestru pleidleiswyr ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed a phreswylwyr nad ydynt wedi cael eu geni yn y DU, er mwyn sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl yn etholiad Senedd Cymru 2021. | Preswylwyr PDdLlE, preswylwyr a anwyd y tu allan i'r DU, plant a phobl ifanc. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |
| 2.5 | Datblygu Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion i wella cyfranogiad democrataidd lleol a chefnogi ymgysylltiad â phenderfyniadau lleol. | Pob preswylydd ond yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel, preswylwyr PDdLlE, plant a phobl ifanc. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau<br><br>Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Y Gyfraith a Llywodraethu |
| 2.6 | Cefnogi cyfranogiad ymhlith y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig drwy:<br><br>• Ddarparu gwybodaeth a/neu sesiynau ymgysylltu mewn fformat hygyrch ar faterion allweddol, gan ystyried a lliniaru rhwystrau i gyfranogiad lle bynnag y bo modd, megis drwy ddarparu gwybodaeth mewn iaith arall, Braille, sain, print bras, hawdd ei darllen, fideo IAP neu destun plaen | Pob grŵp nodwedd warchodedig, yn enwedig y rhai sydd ag anabledd a siaradwyr ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |

## Dinas Cyflog Byw

Ym mis Hydref 2019, canfu amcangyfrifon dros dro fod 19,000 o swyddi yng Nghymru (1.6 % o'r holl swyddi) yn talu llai na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (ICC) neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol (CBC) i gyflogeion 16 oed a throsodd.[58]

Mae 37,000 o swyddi yng Nghaerdydd (17.6 % o'r holl swyddi) yn talu'n is na chyfraddau gwirfoddol y Sefydliad Cyflog Byw.[59] Cyfradd cyflog yw hon a gyfrifir gan y Sefydliad Cyflog Byw, sy'n seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar deuluoedd er mwyn cyflawni safon byw dderbyniol.[60]

Mae Caerdydd wedi'i chydnabod fel Dinas Cyflog Byw yn rhan o'r cynllun 'Gwneud Lleoedd Cyflog Byw' newydd. Yn 2019, gwnaeth grŵp o gyflogwyr Caerdydd blaenllaw gydweithio i ffurfio Grŵp Gweithredu Cyflog Byw Caerdydd a lansio'u cynllun gweithredu 3 blynedd i ddechrau 'Gwneud Caerdydd yn Ddinas Cyflog Byw'. [61]

Mae dros 100 o gyflogwyr Cyflog Byw Caerdydd achrededig eisoes sy'n cyfateb i dros 45 % o gyfanswm Cymru

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019-2022 yn cynnwys:

- Cynyddu nifer y cyflogwyr Cyflog Byw achrededig i 150 erbyn 2022.
- Cynyddu nifer y bobl sy'n gweithio am Gyflog Byw achrededig i 48,000 erbyn 2022.
- Annog cyflogwyr mawr, cyflogwyr eiconig a sefydliadau 'angor' yng Nghaerdydd i ddod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig.
- Cefnogi busnesau bach i achredu drwy Gynllun Cymorth Achredu Cyflog Byw y Cyngor.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 2.6 | Annog a chefnogi sefydliadau i gael eu hachredu fel cyflogwyr Cyflog Byw. | Preswylwyr incwm isel, preswylwyr PDdLIE, menywod a phreswylwyr anabl. | Cynllun Corfforaethol<br>Cynllun Gweithredu Cyflog Byw Caerdydd |

58. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Swyddi sy'n talu'n llai na'r isafswm cyflog yn ôl categori, Hydref 2019,
59. Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion - Amcangyfrifon o nifer a chyfran y swyddi cyflogeion sydd â chyflog fesul awr yn is na'r cyflog byw, yn ôl daearyddiaeth gwaith, awdurdodau lleol ac etholaeth seneddol, y DU, Ebrill 2018 ac Ebrill 2019
60. Gweler: Resolution Foundation, Cyfrifo Cyflog Byw ar gyfer Llundain a gweddill y DU, 2019-20
61. Cyngor Caerdydd, Gwneud Caerdydd yn Ddinas Cyflog Byw

## Prifddinas gydlynol a chroesawgar

Ledled Ewrop, gall dinasoedd fel Caerdydd gynnig gwrth-naratif cryf i wleidyddiaeth casineb a rhaniad.

Parhewn i gyflawni Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru,62 gan ganolbwyntio ar nodi a lleihau tensiynau cymunedol, gan weithio'n agos gyda sefydliadau a ariennir drwy raglen Cronfa Pontio'r UE Llywodraeth Cymru i atal troseddau casineb a chefnogi eu dioddefwyr. Bydd y tîm cydlyniant yn parhau i ddarparu cymorth a chyngor arbenigol pwrpasol i wasanaethau'r cyngor a'n partneriaid ar y camau y gallwn i gyd eu cymryd er mwyn sicrhau nad oes goddefgarwch o senoffobia, hiliaeth na rhagfarn yng Nghaerdydd.

Mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd a newidiadau i system fewnfudo'r DU yn golygu y byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar y blaenoriaethau isod wrth gyflawni'r Cynllun Cyflawni Cydlyniant cenedlaethol.

### Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn dod ag ansicrwydd ychwanegol o ran cydraddoldeb a hawliau dynol, gan roi mwy o flaenoriaeth i'r cwestiwn o ran sut y gallwn, fel dinas, sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth wraidd ein penderfyniadau strategol, ein gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau.

Drwy gydol 2020 i Fehefin 2021[63] byddwn yn parhau i gyflawni ein Cynllun Ymgysylltu â Chynllun Setliad yr UE cynhwysfawr, er mwyn sicrhau bod gwladolion yr UE sy'n byw yn ein dinas yn gallu diogelu eu hawliau pan ddaw cyfnod pontio Ymadael yr UE i ben, ac i gael y nifer mwyaf posib o geisiadau i'r cynllun.



62. Llywodraeth Cymru, Rhaglen Cydlyniant Cymunedol

63. Y dyddiad cau presennol i Wladolion yr UE wneud cais i Gynllun Setliad yr UE, ar yr amod eu bod yn preswylio yn y DU, yw erbyn 31 mis Rhagfyr 2020. (Yn gywir o 02/08/20 ond gwiriwch Ganllawiau diweddaraf Llywodraeth y DU)

## Cefnogi cynnwys trigolion Caerdydd nad ydynt wedi eu geni yn y DU, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Caerdydd yw un o'r dinasoedd sylfaenol i raglen Dinasoedd Cynhwysol y DU, a gynullwyd gan y Ganolfan dros Ymfudo, Polisi a Chymdeithas ym Mhrifysgol Rhydychen.[64] Mae dinasoedd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn ymrwymo i gydweithio â'u partneriaid lleol er mwyn sicrhau newid sylweddol yn eu dull o gefnogi a chroesawu newydd-ddyfodiaid yn eu dinas.

Ar ôl cyflawni ein Cynllun Gweithredu Cam 1 yn 2017-2019, yng Ngham 2 y rhaglen (2020-2022), byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar sut rydym yn cefnogi preswylwyr nad ydynt wedi cael eu geni yn y DU sydd â gwahanol fathau o statws mewnfudo yng nghyd-destun adferiad Covid-19.

Bydd hyn yn cynnwys adolygu a gwella prosesau diogelu ar draws partneriaeth o randdeiliaid drwy is-grŵp i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, a chefnogi mynediad at ddarpariaeth gyfreithiol i'r rhai sydd â materion mewnfudo cymhleth sy'n cyfrannu at amddifadedd, neu sy'n ei achosi.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 2.8 | Darparu Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru. | Pob preswylydd | Cynllun Corfforaethol<br><br>Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru |
| 2.9 | Cydgysylltu ymateb Caerdydd i adael yr Undeb Ewropeaidd drwy gefnogi gwladolion yr UE i wneud cais i Gynllun Setliad yr UE a pharhau i eiriol dros hawliau ymfudwyr. | Preswylwyr a aned yn y DU | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |
| 2.10 | Gwella arbenigedd ac arfer lleol o ran cefnogi cymunedau ymfudwyr, gan gynnwys cymryd rhan yn y rhwydwaith Dinasoedd Cynhwysol. | Preswylwyr a aned yn y DU | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |

64. Canolfan Ymfudo, Polisi a Chymdeithas, Prifysgol Rhydychen, Dinasoedd Cynhwysol

# Caerdydd: Dinas sy'n dathlu amrywiaeth a chynhwysiant drwy gerddoriaeth a diwylliant

Dros y ddau ddegawd diwethaf mae'r hyn sydd gan Gaerdydd i'w gynnig yn ddiwylliannol ac o ran chwaraeon wedi bod yn allweddol wrth drawsnewid ein dinas. Mae Uchelgais Prifddinas yn cydnabod bod yr hyn sydd gan Gaerdydd i'w gynnig yn ddiwylliannol yn rhoi mantais gystadleuol iddi ac mae ein trigolion yn cydnabod bod ei seilwaith o ran diwylliant a hamdden ymysg y gorau yn Ewrop.

Mae ein Strategaeth Economaidd yn nodi bod ein diwydiannau creadigol yn hanfodol i ddatblygiad economi Caerdydd yn y blynyddoedd i ddod. Mae ein diwydiant cerddorol lleol wedi'i nodi fel maes o gryfder arbennig ac mae cyfle cyffrous i ddatblygu ein sector creadigol ymhellach a rhoi diwylliant, arloesedd a chreadigrwydd wrth wraidd datblygiad diwydiannol Caerdydd yn y dyfodol.

## Strategaeth Gerdd Caerdydd

Mae Caerdydd yn gyfrifol am tua 30 % o'r cynhyrchu a 41 % o'r swyddi a grëwyd gan graidd y sector gerddorol Gymreig. Cynhyrchodd allbwn o £153 miliwn, ac ychwanegodd werth £104 miliwn (Gwerth Ychwanegol Crynswth) i'r economi leol yn 2016.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial Caerdydd, gwnaethom adolygu asedau a seilwaith diwylliannol Caerdydd i lywio ein Strategaeth Economaidd. Nododd yr adolygiad hwn fod 'Cyflawni Strategaeth Gerdd ar gyfer Caerdydd' yn flaenoriaeth allweddol i'n datblygiad economaidd yn y dyfodol. Er mwyn datblygu'r gwaith hwn, penodwyd Sound Diplomacy, arweinydd byd-eang y mudiad Dinasoedd Cerdd, i ddadansoddi ecosystem gerddoriaeth Caerdydd a chefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gerdd ar gyfer y ddinas.

Nododd Sound Diplomacy gyfle datblygu yn niwydiant cerddoriaeth Caerdydd i arallgyfeirio ein digwyddiadau a'n cynnig o ran genres. Nid oes digon o gynrychiolaeth o genres fel hip-hop, rap, grime, RnB, jazz, cerddoriaeth y byd ac electronig yn lleoliadau a gwyliau'r ddinas, a hynny o ran digwyddiadau a pherfformwyr. Mae ymchwil i sector cerddoriaeth Caerdydd hefyd wedi nodi bod llawer o randdeiliaid yn cytuno y byddai ecosystem gerdd y ddinas yn elwa o fwy o amrywiaeth diwylliannol ac o ran rhywedd.

Er mwyn ymateb yn weithredol i argymhellion Sound Diplomacy, sefydlon ni un o Fyrddau Cerddoriaeth Dinesig cyntaf y DU. Un o'r amcanion y mae'r Bwrdd Cerddoriaeth yn gweithio i'w gyflawni yw hyrwyddo tegwch, gwella mynediad a hyrwyddo mentrau amrywiaeth o fewn y sector.

Mae ymchwil gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi nodi diffyg amrywiaeth a chynhwysiant fel mater sectoraidd ehangach a byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â hyn drwy ein gwaith datblygu diwylliannol ehangach yn ystod oes y Strategaeth hon.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 2.11 | • Datblygu Cytundeb Dinas Ddiwylliannol Caerdydd gyda'r sector diwylliannol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Ddiwylliannol newydd sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.<br>• Annog amrywiaeth mewn rhaglennu diwylliannol a hyrwyddo amrywiaeth ehangach o genres cerddorol a gyflawnir yng Nghaerdydd<br>• Creu a datblygu digwyddiad cerddorol unigryw yng Nghaerdydd sy'n meithrin talent amrywiol sydd wedi egino gartref. | Pob preswylydd, yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel, plant a phobl ifanc, trigolion BAME a menywod. | Cynllun Corfforaethol<br><br>Strategaeth Gerdd Caerdydd |

## Mesur a monitro ein cynnydd

Nododd adroddiad ‘A yw Cymru’n Decach’ 2018 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod bylchau clir yn y data yng Nghymru sy’n ei gwneud yn anodd deall profiadau pobl sy’n rhannu’r holl nodweddion gwarchodedig. Mae diffyg data penodol wedi’i rannu fesul nodwedd warchodedig o ran cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, a hil.[65]

Byddwn yn adolygu’r data a gasglwn ar draws y sefydliad ar hyn o bryd, a sut rydym yn rhannu data Cymru gyfan a’r DU gyfan ar gydraddoldeb o fewn ein sefydliad, er mwyn nodi ffyrdd o wella eu gwelededd i staff, ac yn enwedig llunwyr polisi, er mwyn sicrhau bod ein holl wasanaethau’n darparu dull a arweinir gan dystiolaeth o ymdrin â’n dyletswyddau cydraddoldeb. Caiff y data hwn ei ddwyn ynghyd mewn un dangosfwrdd er mwyn sicrhau ei hygyrchedd, a chaiff ei hyrwyddo i staff y cyngor i’w hannog i’w ddefnyddio ym mhob agwedd ar lunio gwasanaethau.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 2.12 | Datblygu dangosfwrdd data cydraddoldebau sydd ar gael i’r holl staff sy’n gyfrifol am ddatblygu polisi a fframwaith cydraddoldeb o ddangosyddion i fesur a monitro ein heffaith. | Pob grŵp nodweddion gwarchodedig, y rhai ar incwm isel | Cynllun Cyflawni’r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |



64. Adroddiad Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A yw Cymru’n Decach? 2018

# Amcan 3: Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw, yn ymweld neu'n gweithio yn y ddinas

## Cyflwyniad

Gall yr amgylchedd adeiledig gyfrannu at gymdeithas fwy cyfartal, cynhwysol a chydlynol os yw'r mannau lle'r ydym yn byw, y cyfleusterau a ddefnyddiwn a'n cymdogaethau a'n mannau cyfarfod wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol.

Mae ansawdd adeiladau a mannau yn cael dylanwad cryf ar ansawdd bywydau pobl. Gall penderfyniadau ynghylch dylunio, cynllunio a rheoli lleoedd wella neu gyfyngu ar ymdeimlad o berthyn, hyrwyddo neu leihau symudedd a gwella neu niweidio iechyd. Y gwir amdani yw bod pobl ar incwm isel yn llawer mwy tebygol o fyw mewn amgylcheddau o ansawdd gwael. Mae effaith dylunio gwael yn fwy tebygol o gael ei theimlo gan bobl anabl a phobl hŷn, pobl o gefndiroedd lleiafrifol, gofalwyr â phlant ifanc, ac felly mae'n cael effaith anghymesur ar fenywod. [66]

Mae'r amcan hwn yn ymwneud â sut y byddwn yn cymhwyso egwyddorion dylunio cynhwysol i greu seilwaith a gwasanaethau dinasoedd sy'n darparu amgylchedd cynhwysol a di-rwystr i'n preswylwyr a'n rhanbarth ehangach. Bydd hyn yn galluogi pawb i gymryd rhan yn gyfartal, yn hyderus ac yn annibynnol ym mywyd y ddinas, a sicrhau manteision wedi'u targedu i grwpiau penodol sy'n profi'r amgylchedd adeiledig yn wahanol oherwydd eu cefndir cymdeithasol, diwylliannol neu economaidd.



66. Gweler: Cyngor Dylunio, Cynhwysiant drwy ddyluniad: Cydraddoldeb, amrywiaeth a'r amgylchedd adeiledig

## Dinas gysylltiedig a hygyrch drwy ddyluniad

Dylai datblygu yng Nghaerdydd bob amser greu amgylcheddau cynhwysol di-rwystr sy'n annog integreiddio cymdeithasol ac economaidd. Mae hyn yn ganolog i Egwyddorion Uwchgynllun y Cyngor[67] a bydd rhoi egwyddorion dylunio cynhwysol wrth wraidd y broses gynllunio yn helpu er mwyn sicrhau bod anghenion holl bobl Caerdydd yn cael eu cydnabod a bod y ddinas yn diwallu eu hanghenion amrywiol yn well. Mae'r dull hwn yn galluogi pawb i gymryd rhan yn gyfartal, yn hyderus ac yn annibynnol mewn gweithgareddau bob dydd. Er bod dylunio cynhwysol, drwy ddiffiniad, o fudd i bawb, mae'n chwarae rhan benodol wrth helpu i oresgyn yr heriau y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu.

Mae hyn yn golygu sicrhau twf da drwy adfywio rhannau o'r ddinas er budd economaidd pawb, ac mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy. Mae'n golygu darparu gwell gwasanaethau lleol, mannau cyhoeddus o ansawdd uchel a sicrhau bod preswylwyr Caerdydd yn mwynhau cymunedau diogel ac iach sy'n diwallu eu hanghenion presennol ac yn y dyfodol.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Cefnogi cyflawniad y gwaith o greu cymunedau o ansawdd uchel sydd â chysylltiadau da, fel y disgrifiwyd gan Egwyddor Uwchgynllunio'r Cyngor, gan sicrhau'r canlynol:<br>• Caiff seilwaith ategol, megis trafnidiaeth gynaliadwy, ysgolion, cyfleusterau cymunedol a mannau gwyrdd, eu darparu ym mhob datblygiad tai strategol newydd;<br>• Caiff datblygiadau tai newydd y Cyngor eu llywio gan gynllunio da a chynllunio seilwaith;<br>• Caiff gwelliannau seilwaith cymunedol ar safleoedd strategol yn cael eu cyfleu i'r cyhoedd. | Pob preswylydd, y rhai o gartrefi incwm isel, pobl anabl a phobl hŷn. | nllun Corfforaethol |
| 3.2 | Gweithio gyda chymunedau, darparwyr trafnidiaeth a busnesau er mwyn helpu i adfywio'r rhannau mwyaf difreintiedig o Gaerdydd mewn ffordd sy'n cefnogi twf da ac sy'n creu cyfleoedd i'r grwpiau mwyaf difreintiedig. | Aelwydydd incwm isel, preswylwyr PDdLlE, pobl ifanc a phobl anabl. | Cynllun Corfforaethol |

67. Cyngor Caerdydd, Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd, Y Fframwaith Uwchgynllunio, 2013

## Gwneud ein mannau cyhoeddus yn fwy hygyrch i bobl hŷn, pobl anabl a'r rhai â phlant ifanc

Gall pobl ddall, pobl fyddar a phobl anabl, a phobl hŷn, wynebu rhwystrau i fynd o amgylch y ddinas o ganlyniad i ddodrefn stryd sydd mewn lleoliad gwael ac annibendod,[68] arwynebau a rennir heb ffin glir rhwng cerbydau a cherddwyr,[69] diffyg mannau parcio Bathodyn Glas[70] a mynediad gwael at wasanaethau hanfodol, siopau a chartrefi. Mae llawer o'r rhwystrau hyn hefyd yn effeithio ar y rhai â phlant ifanc.[71]

Mae sicrhau bod ein mannau cyhoeddus yn parhau i fod ar gael yn ystod cyfnod o gadw pellter cymdeithasol yn flaenoriaeth i'r Cyngor wrth i ganol ein dinas a'n strydoedd mawr ailagor. Drwy gydol haf 2020, mae'r Cyngor wedi cynnull fforwm hygyrchedd bob pythefnos gydag amrywiaeth o sefydliadau a phreswylwyr lleol, er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio canllawiau arfer gorau wrth ailagor y mannau hyn, ac yn cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ansawdd uchel ar gyfer pob newid i'r amgylchedd adeiledig.[72]

Mae pobl hŷn Caerdydd, yn enwedig y rhai sydd â namau corfforol neu wybyddol fel dementia, hefyd yn wynebu rhwystrau a all effeithio ar eu hyder a'u gallu i gael mynediad i adeiladau, lleoedd a mannau, gan ychwanegu at deimladau o unigedd cymdeithasol. Hefyd, mae diffyg graeanu ffyrdd yn y gaeaf, gwahanu annigonol rhwng cerddwyr a cheir, meinciau annigonol mewn mannau cyhoeddus a dim digon o amser i groesi goleuadau traffig hefyd yn creu heriau.

Fel Dinas sy'n Deall Dementia, byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant ar draws y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o ddementia ar draws ein holl wasanaethau, datblygu rhaglen ymgysylltu ag ysgolion ac annog busnesau i addunedu eu hymrwymiad i Ddeall Dementia.[73]



68. Gweler: Cŵn Tywys, Ymgyrch ac adnoddau Streets Ahead
69. Ibid
70. Ymddiriedolaeth Papworth, Anabledd yn y Deyrnas Unedig, Ffeithiau a Ffigyrau, 2018
71. Ibid
72. Ceir manylion y gwaith yma: Cyngor Caerdydd, Ymweld â chanol y ddinas yn ddiogel
73. Caerdydd a Bro Morgannwg, Strategaeth Ddementia 2018-2028

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 3.3 | Ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau nodweddion gwarchodedig ar faterion allweddol o ran datblygu polisi neu unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau, gan gynnwys:<br>• Darparu gwybodaeth am fesurau iechyd cyhoeddus Covid-19 mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau ar ein gwefan a thrwy ein rhwydweithiau.<br>• Cynnal fforwm hygyrchedd rheolaidd ar gyfer ymgynghori ynghylch mesurau cadw pellter cymdeithasol mewn mannau cyhoeddus wrth iddynt ailagor yn ystod Covid-19. | Pobl Hŷn, pobl sy'n profi salwch corfforol a/neu feddyliol | Cynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth: Polisi a Phartneriaethau |
| 3.4 | Fel dinas sy'n deall dementia, cefnogi'r rhai y mae dementia yn effeithio arnynt i gyfrannu at fywyd eu cymuned a chymryd rhan ynddo drwy:<br>• Ymgymryd â hyfforddiant Cyfeillion Dementia ar draws yr Awdurdod, gyda'r nod o gydymffurfio 100 % ymysg staff y Cyngor erbyn mis Ebrill 2021;<br>• Datblygu rhaglen ymgysylltu ag ysgolion i annog mwy o weithgareddau a digwyddiadau rhwng cenedlaethau;<br>• Annog busnesau i Deall Dementia drwy gyflwyno rhaglen ymwybyddiaeth ac ymgysylltu'r Cyngor;<br>• Lansio gwefan sy'n canolbwyntio ar ddementia i gefnogi'r rheini â dementia, gofalwyr, teuluoedd, yn ogystal â busnesau sydd am gefnogi'r rheini â dementia yn well;<br>• Darparu digwyddiadau ymwybyddiaeth o ddementia sy'n canolbwyntio ar ardal. | Pobl hŷn, pobl anabl, y rhai sy'n dioddef salwch corfforol neu feddyliol. | Cynllun Corfforaethol<br><br>Strategaeth Ddementia 2018-2028 |

## Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd

Mae rhai agweddau ar seilwaith cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol yn arbennig o bwysig i bobl hŷn, y rhai sydd ag anableddau, pobl sy'n newydd i'r ddinas a phreswylwyr o gartrefi incwm isel. Mae ein Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd 2019-2023[74] yn nodi un weledigaeth i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yng nghanol cymunedau, er mwyn helpu ein preswylwyr i gael y cymorth sydd ei angen arnynt mewn mannau croesawgar, lleol.

Roedd y broses o ddatblygu'r Hybiau Cymunedol yn canolbwyntio i ddechrau ar Fwa Deheuol y ddinas, lle mae effeithiau heriol llymder a'r angen am gyngor ar eu mwyaf. Fodd bynnag, mae'r strategaeth Hybiau bellach wedi'i hymestyn i gynnwys Hybiau ar draws gogledd y ddinas sy'n canolbwyntio ar fyw'n annibynnol a llesiant.[75]

Mae sicrhau y gall pawb rannu yn ffyniant y ddinas bob amser wedi bod yn rhan annatod o'r Hybiau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i'n cymunedau. Mae pob lleoliad yn darparu ystod eang o wasanaethau a chymorth gan y cyngor a phartneriaid, megis gwasanaethau i mewn i waith a gweithgareddau wedi'u targedu er mwyn cefnogi grwpiau penodol o breswylwyr i ddysgu a chysylltu; er enghraifft, drwy Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, darpariaeth dan 5 oed a Chynhwysiant Anabledd mewn Addysg Gymunedol.

Mae'r Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd yn nodi sut y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at ein taith Dinas sy'n Dda i Blant, gan fanylu ar ystod eang o ymrwymiadau i wella'r cymorth sydd ar gael i'n plant a'n pobl ifanc. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r Ganolfan Ieuenctid arbenigol gyntaf ym Mhafiliwn Butetown, gyda'r adeilad hwn, sydd wedi'i adnewyddu, yn rhoi cyngor a chymorth cydgysylltiedig i bobl ifanc, ochr yn ochr â gwasanaethau ieuenctid traddodiadol, mewn lleoliad hamddenol.

74. Cyngor Caerdydd, Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd 2019-2023

75. Tudalennau 54-56 y Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd 2019-2023 yn manylu ar sut rydym yn gwneud gwasanaethau Hybiau a Llyfrgelloedd yn hygyrch i bawb.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 3.5 | Parhau i gyflawni'r Rhaglen Hybiau Cymunedol, ar y cyd â phartneriaid, gan gynnwys:<br>• Datblygu cynlluniau ar gyfer Hybiau Ieuenctid yng nghanol y ddinas a Butetown;<br>• Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Prifysgol ar Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Hyb y Maelfa a Hybiau eraill o fewn Ardal y Gogledd;<br>• Sicrhau bod pobl yn cael eu cysylltu â darparwyr gwasanaethau lleol a gweithgareddau yn eu cymdogaeth drwy Swyddogion Cynhwysiant Cymunedol. | Pob preswylydd ond yn enwedig plant a phobl ifanc, pobl hŷn, preswylwyr PDdLIE, preswylwyr nad ydynt wedi cael eu geni yn y DU, y rhai sy'n dioddef salwch corfforol neu feddyliol a phreswylwyr anabl. | Cynllun Corfforaethol<br>Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd 2019-2023 |
| 3.6 | Mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol a gwella ansawdd bywyd pobl hŷn drwy:<br>• Helpu i feithrin cysylltiadau rhwng dinasyddion, grwpiau, sefydliadau a busnesau preifat;<br>• Dod â phobl ifanc a phobl hŷn at ei gilydd i ddarparu llwyfan lle gellir rhannu sgiliau, profiad a dealltwriaeth. | Pobl hŷn, pobl iau a'r rhai sy'n dioddef salwch meddwl. | Cynllun Corfforaethol<br>Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd 2019-2023 |



## Gwella ansawdd aer

Mae gwaith diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif y gellir priodoli mwy na 220 o farwolaethau bob blwyddyn ymysg pobl 30 oed a throsodd, yn ardal Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, i lygredd deuocsid nitrogen (NO2) gyda llawer mwy o ddinasyddion yn dioddef iechyd gwael o ganlyniad i ansawdd aer gwael.

Mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal astudiaeth fanwl ar ansawdd aer  o ganlyniad i ofyniad cyfreithiol sydd wedi'i osod ar Lywodraeth Cymru, sy'n gofyn i'r Cyngor weithredu i leihau lefelau llygredd (NO2) i'r terfyn cyfreithiol sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth Ewropeaidd, yn yr amser byrraf posibl.

Mae tystiolaeth yn dangos bod preswylwyr yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd yn dioddef lefelau uwch o lygredd aer, a bod hyn yn cael effaith anghymesur ar breswylwyr o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Ceir tystiolaeth gymhellol hefyd y gallai llygredd aer waethygu'r tueddiad i ddioddef o'r Coronafeirws.[76]


Mae'r Cyngor yn gweithio'n uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru a bydd ein Cynllun Terfynol i wella ansawdd aer yn cynnwys cynnig cyllido i Lywodraeth Cymru i ariannu'r mesurau sy'n sicrhau y gallwn wella ansawdd aer yn y Ddinas i gydymffurfio â therfynau cyfreithiol yn yr amser byrraf posibl. [77]

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 3.7 | Sicrhau ansawdd aer da drwy weithredu a gwerthuso'r canlynol:<br>• Y Cynllun Aer Glân fel y'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Gwerth Terfyn yr UE ar gyfer Nitrogen Deuocsid (NO2) yn yr amser byrraf posibl erbyn diwedd 2021;<br>• Mesurau Strategaeth Aer Glân ehangach er mwyn sicrhau gostyngiad parhaus yng nghrynodiad Nitrogen Deuocsid (NO2) y ddinas. | Grwpiau PDdLIE, aelwydydd incwm isel, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl anabl a phobl sy'n profi salwch corfforol a/neu feddyliol. | Strategaeth Aer Glân<br><br>Cynllun Aer Glân<br><br>Cynllun Corfforaethol<br><br>Strategaeth Un Blaned Caerdydd |

76. Edoardo Conticini a Bruno Frediani a Dario Carob, A ellir ystyried llygredd atmosfferig fel cyd-ffactor mewn lefel uchel iawn o angeuoldeb SARS-CoV-2 yng Ngogledd yr Eidal?, Xiao Wu, Rachel C. Nethery, Benjamin M. Sabath, Danielle Braun, Francesca Dominici, Marwolaeth yn sgil dod i gysylltiad â llygredd aer a COVID-19 yn yr Unol Daleithiau: Astudiaeth drawsadrannol genedlaethol, Matthew A. Cole, Ceren Ozgen, Eric Strobl, Cysylltiad â Llygredd Aer a COVID-19


77. Rhagor o wybodaeth:  Cyngor Caerdydd, Aer Glân Caerdydd

## Canran o Gyfanswm y Boblogaeth sy'n perthyn i Grŵp Ethnig BAME fesul ACEHI, Cyfrifiad 2011




*DS. Mae Ffiniau'r Wardiau yn seiliedig ar Wardiau 2011. Gall y ffiniau presennol fod yn wahanol.*

## Cymedr Blynyddol NO2 (µg/m3), 2018 (DEFRA)



## Gwella datblygiad polisi lleol ar gyfer dinas decach

Mae egwyddorion dylunio cynhwysol nid yn unig yn berthnasol i amgylchedd adeiledig y ddinas, ond sut rydym yn cynllunio ein holl wasanaethau, yn datblygu ein dulliau polisi o ymdrin â gwahanol faterion ac yn clywed barn ein preswylwyr amrywiol wrth eu datblygu. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi datblygu hyfforddiant newydd, sydd ar gael i holl staff y cyngor, i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ansawdd uchel, a byddwn yn datblygu gwasanaeth cynghori mewnol ar y cyfnod cynnar i gefnogi llunwyr polisi ar draws holl gyfarwyddiaethau'r cyngor i ddeall a chymhwyso'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ymarferol.

Yn 2021 byddwn yn datblygu a lansio cwrs 'Cydraddoldeb wrth Ddatblygu Polisi' ar gyfer rheolwyr a llunwyr polisi ar draws y Cyngor, a fydd yn cynnwys sut i ddod o hyd i dystiolaeth gydraddoldeb berthnasol er mwyn llywio opsiynau a gwerthuso dulliau gweithredu.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 3.8 | Gwella datblygiad polisi lleol drwy ddarparu:<br>• Rhaglen o Hyfforddiant Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd ar gael i'r holl staff;<br>• Datblygu cwrs Cydraddoldeb mewn Datblygu Polisi;<br>• Cynhyrchu canllawiau o ansawdd uchel ar gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol; a<br>• Darparu gwasanaeth cyngor ar gydraddoldeb corfforaethol i bob cyfarwyddiaeth. | Pob preswylydd ond yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel a'r rhai sydd ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig | Cynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth: Polisi a Phartneriaethau |

**Gweler hefyd:**
Dangosfwrdd Data Cydraddoldeb T.44 a hyfforddiant Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb T.14

# Amcan 4: Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol

## Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon wedi nodi ein gweledigaeth ar gyfer Caerdydd fwy cyfartal a chynhwysol – dinas lle nad oes neb yn cael ei ddal yn ôl na'i adael ar ôl oherwydd pwy ydynt na'u cefndir. Rydym yn benderfynol o arwain drwy esiampl mewn meysydd lle mae gennym gyfrifoldeb uniongyrchol.

Wrth hyrwyddo camau i greu Caerdydd fwy cynhwysol, mae'n iawn i hyn ddechrau drwy sicrhau bod pob cam yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn dod yn fwy cynrychioliadol o amrywiaeth Caerdydd a'r ddinas rydym yn ei gwasanaethu.

Gweithlu'r Cyngor yw ei ased mwyaf gwerthfawr. Mae ein gweithlu o fwy na 13,000 o gyflogeion yn amrywiol a chymhleth iawn, gan adlewyrchu'r ystod a'r mathau o wasanaethau y mae'r sefydliad yn eu darparu.

## Ein Strategaeth Gweithlu 2018-2021

Mae ein Strategaeth Gweithlu[78] yn nodi bod gwella cynrychiolaeth y gweithlu fel un o'n pum blaenoriaeth strategol.

Mae'r Strategaeth Gweithlu yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gyflawni ymrwymiad y Cyngor er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor weithlu sy'n cynrychioli ei gymunedau.

Ni ellir tanddatgan effeithiau llymder, o ran ei effaith ar recriwtio mewn awdurdodau lleol a chanfyddiadau o gyfleoedd cyflogaeth y Cyngor. Helpodd oedi hir mewn perthynas â recriwtio allanol i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth mewnol i'r staff hynny yr effeithiwyd arnynt gan doriadau mewn cyllideb llywodraeth leol, ond yn anochel fe gyfyngodd hyn ar ein cynnydd o ran gwella amrywiaeth ethnig ac oedran o fewn gweithlu'r Cyngor yn ystod cyfnod hir o galedi.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gallu ailddechrau recriwtio'n allanol ac rydym wedi gwneud cynnydd da hyd yma o ran gwella cynrychiolaeth PDdALIE a phobl ifanc. Gwnaeth nifer y staff PDdALIE a gyflogir gan y Cyngor ddyblu bron rhwng 2015 a 2019, gan godi o 5.5% i 10.03%. Mae ein cynlluniau prentisiaeth a hyfforddeiaeth sy'n hyrwyddo cyfleoedd i bobl o dan 25 oed hefyd yn helpu i hybu amrywiaeth oedran ac yn helpu i sicrhau llif o dalent amrywiol y dyfodol ar draws ein gwasanaethau.

78. Cyngor Caerdydd, Strategaeth Gweithlu 2018-2021

**Gweithlu Cyngor Caerdydd:**

- Mae'r Cyngor wedi cyfrifo ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau fel cyflog cymedrig fesul awr o 3.21 % o blaid dynion.
- Cyfran y cyflogeion yn y Cyngor sy'n nodi bod ganddynt anabledd oedd 0.81 % ym mis Rhagfyr 2017. Cynyddodd hyn i 1.28 % yn 2019.
- Mae cyfran y cyflogeion Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (PDdLIE) wedi cynyddu o 5.5 % yn 2015 i 10.03 % yn 2019.
- O'r 33.12 % o gyflogeion sydd wedi darparu gwybodaeth am eu cyfeiriadedd rhywiol, mae 4.4 % wedi nodi eu bod yn LHDT. Nid yw hyn wedi newid ers y blynyddoedd diwethaf.

Mae dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yn elfen hanfodol o'n Strategaeth Gweithlu 2018-2022. Cyflawnir hyn drwy nifer o bolisïau tryloyw sydd ar gael i'r holl staff a rheolwyr ar fewnrwyd y sefydliad, sy'n sicrhau bod pob cyflogai yn cael ei drin ag urddas a pharch. Caiff y polisïau hyn eu hadolygu'n rheolaidd, mewn ymgynghoriad â chyflogeion, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol o ran cyflawni'r nodau hyn.

Mae'r Cyd-gytundeb Statws Sengl wedi sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfartal a bydd cyhoeddi ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd yn cefnogi tryloywder ymhellach, ac yn cynorthwyo'r cyngor i fesur ei gynnydd tuag at gyflawni gweithlu cynrychioliadol.

Mae pob cyfle hyfforddiant a hyrwyddo yn cael eu hysbysebu i'r holl gyflogeion ac mae rheolwyr yn gweithio gyda chyflogeion i weithredu addasiadau rhesymol pan fydd eu hangen.

Mae'r camau y manylir arnynt i gyflawni'r Amcan Cydraddoldeb Strategol hwn yn amlygu sut y byddwn yn mynd ymhellach i feithrin diwylliant lle mae pawb yn cael eu trin â pharch ac yn teimlo y gallant siarad a chyfrannu, yn enwedig i awgrymu ffyrdd newydd o weithio. Bydd y camau hyn hefyd yn sicrhau bod ein holl gyflogeion, partneriaid a chyflenwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch, a bod eu hanghenion iechyd a lles yn cael eu cefnogi.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Lleihau cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch drwy'r canlynol:<br>• Parhau i gefnogi lles staff, yn enwedig drwy ddarparu cymorth ychwanegol i staff sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael;<br>• Atgyfnerthu arferion rheoli ar draws pob cyfarwyddiaeth, gan ganolbwyntio ar leihau cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch hirdymor. | Holl Staff y Cyngor, y rhai sy'n profi salwch corfforol neu feddyliol, y rhai sydd ag anableddau a phobl hŷn. | Cynllun Corfforaethol<br><br>Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.2 | Hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch casglu data cydraddoldeb i'n gweithlu, er mwyn lleihau lefel y data cydraddoldeb sydd heb ei gofnodi sy'n ymwneud â'n staff. | Holl staff a phreswylwyr y Cyngor ond yn enwedig y rhai sydd ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021<br><br>Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Phartneriaethau |
| 4.3 | Defnyddio data monitro cydraddoldeb i ddarparu dadansoddiad ar lefel cyfarwyddiaeth o amrywiaeth y gweithlu. | Holl Staff y Cyngor | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |
| 4.4 | Adolygu ein bylchau cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd a chyhoeddi ein canfyddiadau. | Holl staff y Cyngor, staff PDdLIE a menywod. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |

DLIE Rhwydwaith  Gofalwyr Rhwydwaith  Anabledd Rhwydwaith  LHDT+ Rhwydwaith  Menywod Rhwydwaith

## Cefnogi a chydweithio â'n Rhwydweithiau Cydraddoldeb i gyflogeion

Mae'r Cyngor wedi datblygu a sefydlu pum Rhwydwaith Cydraddoldeb Cyflogeion ar draws y sefydliad. Y rhain yw ein:

- Rhwydwaith PDdLIE
- Rhwydwaith Gofalwyr
- Rhwydwaith Cyflogeion Anabl
- Rhwydwaith LHDT; a'r
- Rhwydwaith Menywod.

Mae'r rhwydweithiau ar gyfer holl gyflogeion y Cyngor, ym mhob adran ac ar bob lefel o'r sefydliad. Mae gan bob cyflogai yr hawl i ddod yn aelod o un neu ragor o'r Rhwydweithiau, a chânt eu hannog i wneud hynny.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 4.5 | Cefnogi a chydweithio â'n pum grŵp staff gan gynnwys rhwydweithiau staff PDdLIE, Gofalwyr, LHDT, Anabledd a Merched, gan sicrhau bod y rhwydweithiau hyn yn cael cyfleoedd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau etholedig ac undebau llafur drwy'r Cyngor Gwaith. | Preswylwyr PDdLIE, gofalwyr, preswylwyr LHDT, y rhai sydd ag anableddau, y rhai sy'n dioddef salwch corfforol neu feddyliol a menywod. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |

## Lleihau rhagfarn anymwybodol wrth recriwtio a denu talent amrywiol i'n gweithlu

Yn 2019 lansiwyd system recriwtio newydd gennym, sy'n cofnodi'n ddienw ym mhob ystyr er mwyn lleihau rhagfarn anymwybodol drwy gydol y broses llunio rhestr fer. Mae hyn yn golygu, hyd nes y bydd rheolwr recriwtio wedi cwblhau rhestr fer ar gyfer ymgeiswyr, nad oes ganddynt fynediad at wybodaeth sy'n datgelu unrhyw fanylion personol, gan gynnwys yr enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, oedran na rhif ffôn.

Nodwyd ein dulliau recriwtio fel arfer gorau yn adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2020..[79]

Er mwyn gwella gwelededd ein haddewid, rydym yn datgan ein hymrwymiad i fod yn gyflogwr amrywiol ym mhob un o'n hysbysebion swyddi fel a ganlyn:

*"Fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Felly, er nad yw'n ofyniad ar gyfer gwneud cais, rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan unigolion nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol, sef y rhai;*

- *sy'n 25 oed ac iau;*
- *nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant;*
- *o'n cymunedau lleol gan gynnwys unigolion anabl, gofalwyr a'r rheiny o gymunedau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig a LHDT+ Caerdydd*
- *sy'n gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.*

79. Future Generations Report 2020, t. 325

*Ni ddylai unrhyw ymgeisydd, cyflogai neu ddefnyddiwr gwasanaeth gael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, hunaniaeth rywiol / ailbennu rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, (gan gynnwys cyplau o'r un rhyw), hil, crefydd, cred neu ddiffyg cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol nac ar sail y Gymraeg."*

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 4.6 | Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ar gael i bob rheolwr cyflogi ar draws y cyngor. | Holl staff a phreswylwyr y Cyngor | Strategaeth Gweithlu 2018-2021<br><br>Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Phartneriaethau |
| 4.7 | Defnyddio dulliau recriwtio sy'n ceisio dileu rhagfarn anymwybodol cyn belled ag y bo modd, gan gynnwys rhestrau byr heb enwau a phaneli cyfweld amrywiol lle bynnag y bo modd. | Holl staff a phreswylwyr y Cyngor | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |

## Cefnogi pobl ifanc i ymuno â gweithlu'r Cyngor

Gan fod gweithlu presennol y cyngor yn weithlu sy'n heneiddio, mae angen i ni gynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc drwy hyrwyddo'r Cyngor fel cyflogwr posibl i'r rhai sy'n gadael yr ysgol, y coleg a'r brifysgol sy'n cychwyn ar eu gyrfaoedd.  Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd marchnad lafur i bobl ifanc ein dinas, yn enwedig y rhai sy'n gadael yr ysgol, y coleg a'r brifysgol.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 4.8 | Gweithio gydag ysgolion a cholegau yng Nghaerdydd i hyrwyddo'r cyngor fel cyflogwr i bobl ifanc. | Pobl ifanc | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |

## Ein hachrediad arfer gorau

### Busnes yn y Gymuned Y Siarter Hil yn y Gwaith

Ym mis Rhagfyr 2019, daeth Cyngor Caerdydd yn llofnodwr Siarter Hil yn y Gwaith - Busnes yn y Gymuned (BYYG). Mae pob sefydliad am recriwtio o'r gronfa ehangaf o dalent a'u helpu i wneud cynnydd. Mae hyn yn allweddol i gynhyrchiant a pherfformiad yn y dyfodol.

Mae gwefan Ffeithiau a Ffigyrau Ethnigrwydd Swyddfa Cabinet y DU ac Arolwg Hil yn y Gwaith gan Busnes yn y Gymuned yn tynnu sylw at y ffaith bod staff o leiafrifoedd ethnig yn dal i wynebu gwahaniaethau sylweddol mewn cyflogaeth a dilyniant gyrfa. Canfu adolygiad McGregor-Smith a noddir gan Lywodraeth y DU fod angen mwy o gynnydd a chanlyniadau cadarnhaol er mwyn sicrhau bod pob sefydliad yn elwa ar y cyfoeth o dalent amrywiol a gynigir.

Mae dod yn llofnodwr yn golygu y byddwn yn cyflawni'r ymrwymiadau canlynol:

1. **Penodi Noddwr Gweithredol ar gyfer hil**

   Rhoi arweiniad gweladwy ar hil ac ethnigrwydd yn eu sefydliad a sbarduno camau gweithredu megis gosod targedau ar gyfer cynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig, briffio asiantaethau recriwtio a chefnogi mentora a nawdd.

2. **Casglu data ethnigrwydd a rhoi cyhoeddusrwydd i gynnydd**

   Casglu data ethnigrwydd i sefydlu ein llinell sylfaen a mesur ein cynnydd, gan gynnwys adrodd ar wahaniaethau cyflog ethnigrwydd.

3. **Ymrwymo ar lefel bwrdd i ddim goddefgarwch o aflonyddu a bwlio**

   Datgelodd yr Arolwg Hil yn y Gwaith fod 25 y cant o gyflogeion o leiafrifoedd ethnig wedi dweud eu bod wedi gweld neu wedi profi aflonyddu hiliol neu fwlio gan reolwyr. Mae angen ymrwymiad o'r brig er mwyn sicrhau newid.

4. **Egluro mai cyfrifoldeb pob arweinydd a rheolwr yw cefnogi cydraddoldeb yn y gweithle**

   Er enghraifft, drwy sicrhau bod amcanion perfformiad ar gyfer arweinwyr a rheolwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau i gefnogi tegwch i'r holl staff.

5. **Cymryd camau sy'n cefnogi dilyniant gyrfa lleiafrifoedd ethnig**

   Er enghraifft, drwy ymgorffori mentora a thrwy ddarparu cyfleoedd mentora gwrthdro a nawdd.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 4.9 | Cyflawni ein hymrwymiadau o dan Siarter Hil yn y Gwaith - Busnes yn y Gymuned | Staff a phreswylwyr PDdLlE | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |

## Achrediad Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd

Mae'r Cyngor wedi ennill achrediad Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd - Lefel 2 hyd at 8 Rhagfyr 2020. Wrth barhau â'n hymrwymiad fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, mae'r Cyngor yn sicrhau bod pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial a gwireddu eu dyheadau. Byddwn yn cwblhau hunanasesiad yn erbyn y cynllun yn ystod 2020 ac yn ceisio datblygu neu, o leiaf, gynnal ein hachrediad o dan y cynllun.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymuno â Siarter 'Marw i Weithio' y TUC sy'n darparu fframwaith arfer da er mwyn sicrhau bod gweithwyr sydd wedi'u diagnosio â salwch angheuol yn derbyn tawelwch meddwl a chefnogaeth o ran yr hawl i ddewis y ffordd orau o weithredu drostynt eu hunain a'u teuluoedd gydag urddas a pharch.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 4.10 | Cyflawni ein hymrwymiadau Hyderus o ran Anabledd a chwblhau hunanasesiad yn erbyn y cynllun Hyderus o ran Anabledd yn 2020. | Preswylwyr anabl | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |

## Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle a Rhaglen Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydraddoldeb LHDT ac mae'n parhau i weithio i ddarparu gweithle cadarnhaol a chroesawgar i bob cyflogai, waeth beth fo'i gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Cyngor yn falch o fod wedi cyflawni safle canol gradd ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle ledled y DU, Stonewall Cymru a bydd yn parhau i weithio'n agos gyda Stonewall i adeiladu ar ein cyflawniadau hyd yma a gwella ein sgôr ymhellach yn y blynyddoedd i ddod. Mae Rhwydwaith LHDT gweithgar y Cyngor hefyd yn cyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn ac wedi lansio menter Cynghreiriaid LHDT yn 2017 a gafodd dderbyniad da er mwyn annog aelodau staff, waeth beth fo'u rhywioldeb neu ryw, i ddangos eu cefnogaeth i staff LHDT a'r gymuned LHDT.

Mae'r Cyngor hefyd yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall, sy'n rhaglen gyflogwyr flaenllaw ar gyfer sicrhau bod yr holl staff LHDT yn cael eu derbyn yn ddieithriad ac yn galluogi staff LHDT i gyrraedd eu llawn botensial yn y gweithle.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 4.11 | Meincnodi ein gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb LHDT yn erbyn Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. | staff a phreswylwyr LHDT. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |

## Hyfforddiant a dilyniant gyrfa

Mae pob cyfle hyfforddi a hyrwyddo yn cael ei hysbysebu i'r holl gyflogeion ac mae proses ar waith i gynorthwyo rheolwyr a chyflogeion i weithredu addasiadau rhesymol yn ôl yr angen.

Mae Academi Cyngor Caerdydd hefyd yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb i'r holl staff.

Mae'r pecyn hyfforddiant cydraddoldeb yn cynnwys:

- Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb – gan gynnwys Hil a Chrefydd
- Hyfforddiant ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth o Nam ar y Golwg (mewn partneriaeth ag RNIB Cymru)
- Ymwybyddiaeth Byddardod (mewn partneriaeth â Sefydliad Iaith Arwyddion Prydain ac OFQUAL)
- Anabledd a Chydraddoldeb
- Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 4.12 | Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb o ansawdd uchel i fod ar gael i'r holl staff, gan gynnwys cynnig cynnwys ar ragfarn anymwybodol, a'i ddiwygio'n rheolaidd i gynnwys materion cydraddoldeb presennol. | Holl Staff y Cyngor | Strategaeth Gweithlu 2018-2021<br><br>Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Phartneriaethau |

## Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

Gallwn hefyd ledaenu'r gwerthoedd hyn drwy gaffael cyfrifol, gan weithio gyda'r gadwyn gyflenwi er mwyn sicrhau ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Nod y Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol[79] yw sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y mwyaf o'i fuddion llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i gymunedau drwy ei wariant caffael blynyddol o £410 miliwn.

Caiff ein Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol ei ddiweddaru yn 2020/2021 i roi pwyslais ychwanegol ar yr economi gylchol, cefnogi'r economi sylfaenol a datblygu ac integreiddio set o Fesurau Budd Cymunedol ledled Cymru (Themâu, Canlyniadau a Mesurau). Bydd y fframwaith Budd Cymunedol dilynol yn cael ei gynnwys yn ein tendrau dros £1 filiwn, a bydd y Porth Gwerth Cymdeithasol yn adrodd ar gyflawni yn erbyn y fframwaith.[80] Bydd y dull hwn yn dod â manteision penodol i'r rheini o aelwydydd incwm isel, y rhai sy'n profi diweithdra hirdymor a'r rhai nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n dda yn yr economi leol.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i gyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern blynyddol yn nodi ein hymrwymiadau er mwyn sicrhau nad oes lle i gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl yn ein sefydliad ni na'n cadwyni cyflenwi.

79. Gweler: Cyngor Caerdydd, Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol
80. Gweler: Porth Gwerth Cymdeithasol

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 4.13 | Parhau i gefnogi'r Economi Sylfaenol drwy ein Polisi Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol, gan sicrhau bod pobl a chymunedau lleol yn cael budd o'r arian y mae'r Cyngor yn ei wario ar nwyddau a gwasanaethau ac yn gweithio gyda phartneriaid i edrych ar sut y gallwn hyrwyddo cyfleoedd ymhellach ar gyfer Mentrau Cymdeithasol yng Nghaerdydd. | Y rheini o gartrefi incwm isel, y rhai sy'n profi diweithdra hirdymor, y rhai nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n dda yn yr economi leol. | Cynllun Corfforaethol<br><br>Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol |
| 4.14 | Cyfrannu at ddatblygu'r Mesurau Budd Cymunedol Ledled Cymru ac adeiladu'r fframwaith dilynol yn ein tendrau dros £1 filiwn, gan adrodd am gyflawni yn erbyn y fframwaith drwy'r Porth Gwerth Cymdeithasol. | Y rheini o gartrefi incwm isel, y rhai sy'n profi diweithdra hirdymor, y rhai nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n dda yn yr economi leol. | Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol |
| 4.15 | Parhau i sicrhau bod Datganiad Caethwasiaeth Fodern y Cyngor yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol a bod y ddarpariaeth yn cael ei monitro a'i hadrodd. | Dioddefwyr caethwasiaeth fodern a'r rhai ar incwm isel. | Cynllun Cyflawni'r Adran Comisiynu a Chaffael |

## Dathlu'n amlwg amrywiaeth ein dinas

Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth cymunedau Caerdydd ac yn eu dathlu, a byddwn yn sicrhau bod ymgyrchoedd, digwyddiadau a chyfathrebu ar gael yn llawn i bawb.

| | Yr hyn a wnawn | Yn berthnasol i: | Yn cysylltu i: |
|---|---|---|---|
| 4.16 | Cefnogi'n amlwg ymgyrchoedd cydraddoldeb allweddol drwy gydol y flwyddyn; er enghraifft, Balchder a Diwrnod y Rhuban Gwyn. | Holl Staff y Cyngor | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Phartneriaethau |
| 4.17 | Sicrhau bod gwybodaeth am yr amcanion cydraddoldeb hyn a'r cynnydd tuag atynt yn cael ei chyfleu'n rheolaidd i gydweithwyr ar ôl i'n hadroddiad blynyddol gael ei gynhyrchu yn erbyn y strategaeth hon. | Holl Staff y Cyngor | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Phartneriaethau |




UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD